

HAWLIAD
SWYDDOGOL
AM ANAF

Canllaw i Wneud Hawliad

O dan brotocol hawliadau bach yr RTA

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4	5.2 Colledion	21
1.1 Y Gwasanaeth Hawlio Anafiadau Swyddogol	4	5.2.1 lawndal am eich anaf personol	21
1.1.1 Sut i brisio hawliad: ystyried costau cerbydau nad ydynt yn gysylltiedig â phrotocol	4	5.2.2 Colledion yn ymwneud â'ch anaf personol	21
1.2 Diben y canllaw	5	5.2.3 Colledion oherwydd difrod i eiddo yn ymwneud â'r ddamwain	22
1.2.1 Beth nad yw ar ei gyfer?	5	5.2.4 Costau Cerbydau	22
1.2.2 Ar gyfer pwy mae hwn?	5	Ffioedd 5.3	23
1.2.3 Beth os yw eich hawliad dros y terfynau gwerth?	5	5.3.1 Ffioedd adroddiad meddygol	23
2. Cysylltiadau	7	5.3.2 Ffioedd ar gyfer unrhyw arbenigwyr eraill	23
3. Cynnwys	8	5.3.3 Ffioedd adroddiad yr heddlu	23
4. Sut gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth hwn	11	5.4 Cyfnod cyfyngu	23
4.1 Gofynion i wneud hawliad	11	6. Sut mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio	24
4.2 Pan na fyddwch yn gallu defnyddio'r porth	12	6.1 Camau yn y broses hawlio	24
4.3 Cyfarwyddiadau pellach ar ddefnyddio porth	13	6.2 Cam 1: Cychwyn	25
4.4 Prisio	13	6.2.1 Gwefan a phorth	25
4.4.1 Prisio atchwip	15	6.2.1.1 Gwefan Hawlio Anafiadau Swyddogol	25
4.4.2 Prisiad heb atchwip	16	6.2.2 Beth sy'n digwydd os na allwch chi ddefnyddio'r porth neu os oes gennych anghenion hygyrchedd	26
4.4.3 Beth os yw eich hawliad dros y terfynau gwerth?	19	6.3 Cam 2: Ymchwiliad	27
5. Yr hyn y gallwch wneud hawliad amdano	20	6.3.1 Ymateb i benderfyniad atebolrwydd y digolledwr	27
5.1 Cyflwyniad	20		

6.4 Cam 3: Meddygol	30
6.4.1 Dewisiadau porth wrth symud ymlaen i adroddiadau meddygol	30
6.4.2 Adroddiadau meddygol	33
6.5 Cam 4: Cynnig	36
6.5.1. Yr hyn y mae angen i chi ei ddarparu i'r digolledwr wneud cynnig i chi	36
6.5.2 Sut mae'r digolledwr yn gwneud cynnig	37
6.5.3 Proses cynnig y porth	39
6.5.4 Anghydfod dros hawliad anaf	41
6.5.5 Tynnu cynigion yn ôl	41
6.5.6 Derbyn cynigion a wrthodwyd yn flaenorol	42
6.6 Cam pump: Cau'r broses.	43
6.6.1 Hawliad wedi cau	43
6.6.2 Taliad	43
6.6.4 Beth sy'n digwydd os na allwch chi ddefnyddio'r	
Atodiad	54
Tariff	62

1. Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu i wneud hawliad am anafiadau personol ar y porth Hawlio Anafiadau Swydddogol. Fel y cyfryw, mae'n esbonio'r termau a'r gweithdrefnau cyfreithiol allweddol a ddefnyddir gan y fframwaith cyfreithiol sy'n sail i'r gwasanaeth hwn; Protocol Cyn Gweithredu Hawliadau Bychain RTA.

Mae'r canllaw hwn wedi'i adolygu gan uwch gwnsler cyfreithiol annibynnol i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn gywir. Os nad yw'r canllaw yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch am unrhyw reswm, gallwch gysylltu â Chanolfan Gymorth y Porth neu ofyn am gyngor ([gweler 1.2.3.1](#)).

1.1 Y Gwasanaeth Hawlio Anafiadau Swydddogol

Os ydych chi am wneud hawliad anaf personol sy'n gysylltiedig â damwain traffig ffordd (RTA), yna efallai y byddwch yn gymwys i ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein Hawlio Anafiadau Swydddogol ("y porth"). Cefnogir hyn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'n ymdrin â hawliadau o hyd at £5,000 am anaf personol, a £10,000 pan fyddwch yn cynnwys yr hyn a elwir yn "iawndal protocol arall". Diffinnir y rhain fel colledion, costau a threuliau (ac eithrio iawndal am anaf) yn ymwneud â'r ddamwain ([Gweler Adran 4.4](#)).

Os yw eich hawliad am anaf personol yn werth mwy na £5,000, neu os yw eich hawliad (gan gynnwys anaf ac iawndal protocol arall) yn werth mwy na £10,000, yna nid y porth hwn yw'r lle cywir i ddechrau eich hawliad a dylech ofyn am gyngor, y gost o'r rhain y gellir eu hadennill, bydd eich cynghorydd yn egluro'r sefyllfa o ran costau i chi ([gweler 1.2.3.1](#)).

Lleolir yn www.officialinjuryclaim.org.uk mae'r porth yn eich galluogi i:

- hunan-reoli eich hawliad eich hun o'r dechrau i'r diwedd yn ddi-dâl
- gofyn am gymorth ychwanegol gan y ganolfan gyswllt (a elwir yn "Ganolfan Gymorth y Porth")

1.1.1 Sut i brisio hawliad: ystyried costau cerbydau nad ydynt yn gysylltiedig â phrotocol

Eich cam cyntaf wrth benderfynu a yw eich hawliad yn gymwys ar gyfer y porth hwn, felly, yw asesu gwerth eich hawliad. Rhoddir rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i wneud hynny yn nes ymlaen yn y canllaw hwn.

Wrth benderfynu a allwch ddefnyddio'r porth hwn, rhaid i chi asesu gwerth eich hawliad. Rhoddir rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i wneud hynny yn nes ymlaen yn y canllaw hwn.

Nid oes angen i chi ystyried costau cerbydau nad ydynt yn brotocol (NVC) fel y'u diffinnir yn y [Protocol Cyn Gweithredu](#) wrth brisio eich hawliad gan fod y rhain fel arfer yn cael eu trafod ar wahân ar eich rhan y tu allan i'r broses borth. Dyma enghreifftiau o NVC:

- symiau mae eich yswiriwr wedi talu ar eich rhan fel cost atgyweirio a gwerth dileu eich cerbyd.
- Llogi neu wasanaethau atgyweirio a ddarperir ar gredyd

Fodd bynnag, os byddwch yn penderfynu mynd i'r llys oherwydd na allech ddod i gytundeb ar eich hawliad, yna dylid cynnwys NVC ar y cam hwnnw. Bydd y porth yn rhoi gwybod i chi pa wybodaeth sydd angen i chi ei darparu.

1.2 Diben y canllaw

Mae'r *Canllaw i Wneud Hawliad* yn eich cefnogi drwy'r broses o wneud hawliad am anaf personol ar y porth. Gwna hyn drwy esbonio unrhyw delerau a gweithdrefnau cyfreithiol perthnasol y mae angen i chi wybod amdanynt: er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud â'i fframwaith cyfreithiol, Protocol Cyn Gweithredu Hawliadau Bychain RTA ("Protocol Cyn Gweithredu").

1.2.1 Beth nad yw ar ei gyfer?

Nid yw'r *Canllaw i Wneud Hawliad* yn darparu:

- canllaw sgrin wrth sgrin; does dim angen i chi edrych ar y canllaw hwn wrth i chi wneud hawliad
- ffynhonnell o gyngor cyfreithiol
- modd i'ch helpu i brisio eich hawliad
- canllaw ar gyfer cwsmeriaid bregus (**Gweler Adran 6.2.2**) – os ydych chi'n perthyn i'r categori hwn byddwch chi'n gallu gofyn am gymorth/help drwy gysylltu â'n Canolfan Cymorth Porth
- canllaw i bob taith cwsmer unigol (h.y. llwybrau drwy'r porth)

1.2.2 Ar gyfer pwy mae hwn?

Mae'r *Canllaw i Wneud Hawliad* ar gyfer:

- hawlwyr heb eu cynrhchioli (y rhai nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan gynghorydd)
- pro-ddefnyddwyr (defnyddwyr proffesiynol sy'n cynrychioli hawlwyr) a darparwyr cyngor a allai ddymuno cyfeirio ato
- Siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Bydd hefyd ar gael i'w gyfieithu drwy'r Canolfan Gymorth Porth i unrhyw un o'r 10 iaith dramor fwyaf poblogaidd yng Nghymru a Lloegr

Mae'r canllaw yn defnyddio'r term 'chi' ac 'eich' i gyfeirio'n uniongyrchol at yr hawliwr (a elwir hefyd yn hawliwr heb ei gynrychioli), oni nodir yn wahanol.

1.2.3 Beth os yw eich hawliad dros y terfynau gwerth?

Os yw eich hawliad am anaf personol yn werth mwy na £5,000, neu os ydych yn gwneud hawliad (gan gynnwys anaf a difrod protocol arall –

gweler 1.1) yn werth mwy na £10,000, yna nid y porth hwn yw'r lle cywir i ddechrau eich hawliad a dylech ofyn am gyngor, ac efallai y gellir adennill y gost. Bydd eich cynghorydd yn egluro'r safbwynt ar gostau (**gweler 1.2.3.1**).

Cofiwch: os caiff costau cerbydau nad ydynt yn gysylltiedig â phrotocol eu cynnwys ar y cam hwn, gallai hynny olygu bod cyfanswm eich ffigur yn dod i fwy na £10,000 ac efallai y gallwch gael cyngor cyfreithiol (**gweler 1.2.3.1**). Fodd bynnag, gallwch barhau i ddefnyddio'r porth cyn belled â bod yr anaf a'r iawndal protocol o fewn y terfynau a osodwyd uchod (**gweler 1.1.1**).

1.2.3.1 Ceisio cyngor

Mae gwahanol ffynonellau o gyngor y gallech eu defnyddio gan gynnwys eich yswiriwr eich hun neu gynghorydd cyfreithiol. Efallai y gallwch gael cyngor cyfreithiol heb unrhyw gost ymlaen llaw, neu efallai y bydd cost yn daladwy. Bydd eich cynghorydd yn gallu eich arwain ar unrhyw daliadau y mae'n rhaid i chi eu gwneud iddynt a phryd ac a allwch chi adennill unrhyw rai o'ch costau cyfreithiol gan y parti arall.

Nid yw costau cyfreithiol fel arfer yn adenilladwy o gwbl pan fydd eich hawliad yn mynd yn ei flaen drwy'r porth hwn. Os nad yw eich hawliad yn un a ddylai fod yn mynd rhagddo o fewn y porth hwn, naill ai oherwydd gwerth neu ryw reswm arall, efallai y gallwch gael cyngor cyfreithiol a bydd eich cynghorydd cyfreithiol yn egluro'r sefyllfa o ran costau i chi.

1.2.3.2 Protocol Cyn Gweithredu (PAP) yn cyfeirio at y Canllaw i Wneud Hawliad

Mae'r Protocol Cyn-Gweithredu Hawliadau Bychain Damweiniau Traffig Ffyrdd (RTA) yn gwneud sawl cyfeiriad at y *Canllaw i Wneud Hawliad*. Os ydych chi'n dod at y canllaw o'r Protocol Cyn Gweithredu, bydd y tabl canlynol yn eich cyfeirio at y cyfeirnod canllaw perthnasol:

Cyf. PAP	Datganiad Protocol Cyn Gweithredu	Cyf. Canllaw	Cyf. PAP	Datganiad Protocol Cyn Gweithredu	Cyf. Canllaw	Cyf. PAP	Datganiad Protocol Cyn Gweithredu	Cyf. Canllaw
4.5 (3)	Mae'r <i>Canllaw i Wneud Hawliad</i> yn darparu rhagor o wybodaeth am brisio'r hawliad	4.4 5	7.3.3 7.7.2	Mae'r <i>Canllaw i Wneud Hawliad</i> yn darparu mwy o wybodaeth am gael adroddiad meddygol (7.3.3) ac ar gael adroddiadau meddygol lle nad yw'r rhain yn cael eu darparu trwy Medco (7.7.2)	6.4.1 6.4.1.1 6.4.1.2 6.4.1.3 6.4.1.4 6.4.2 6.4.2.1 6.4.2.2	11.6.2	Lle mae sôn am gostau cerbydau nad ydynt yn gysylltiedig â phrotocol. Mae'r <i>Canllaw i Wneud Hawliad</i> yn darparu rhagor o wybodaeth am brisio hawliad y porth	5.2.4
6.8.7	Mae'r <i>Canllaw i Wneud Hawliad</i> yn darparu mwy o wybodaeth am wneud gwrthgynigion	6.5.3 6.5.3.1 6.5.3.2	7.13 (5)	Mae'r <i>Canllaw i Wneud Hawliad</i> yn rhoi mwy o wybodaeth am hysbysu arbenigwr meddygol ynglŷn â chywirdeb ffeithiol adroddiad	6.4.2	12.1.5	Lle mae sôn am achosion llys (mynd i'r llys), mae <i>Canllaw i Wneud Hawliad</i> yn rhoi mwy o wybodaeth am y camau y mae'n rhaid i hawliwr eu cymryd cyn cychwyn achos llys	6.6.1.1 6.6.3 6.6.3.1 6.6.3.2 6.6.3.3 6.6.3.4 6.6.3.5
6.12.7	Mae'r <i>Canllaw i Wneud Hawliad</i> yn darparu mwy o wybodaeth ynghylch gwneud hawliad am benderfyniad atebolrwydd	6.3.1 6.3.1.1 6.3.1.2 6.3.1.3 6.3.1.4 6.5.1.1 6.5.2	8.8.2	Hawliadau sy'n uwch na'r terfyn gwerth: Mae'r <i>Canllaw i Wneud Hawliad</i> yn rhoi mwy o wybodaeth am y camau sydd ar gael i hawliwr	1.2.3 4.4.3			

2. Cysylltiadau

Am help a chefnogaeth, ffoniwch ni ar

0800 118 1631

Mae Canolfan Cymorth Porth ar agor
o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng
9am a 5pm.

Cyfeiriad:

Official Injury Claim Limited
Linford Wood House
6-12 Capital Drive, Linford Wood
Milton Keynes
MK14 6XT



3. Cynnwys

Dyma brif adrannau'r canllaw:

Adran 4:

Sut gallwch chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y gallwch wneud hawliad gan ddefnyddio'r gwasanaeth hwn (y porth a'r Ganolfan Cymorth Porth). I wneud hynny rhaid i chi fodloni'r gofynion a osodir yn y canllaw hwn ac yn y protocol. Mae gennych hefyd y dewis i ddefnyddio gweithiwr proffesiynol fel cyfreithiwr neu gwmni rheoli hawliadau, a allai gostio arian i chi.

Adran 5:

Am beth y gallwch wneud hawliad

Mae'r adran hon yn amlinellu'r mathau o hawliadau am anaf personol a cholledion cysylltiedig y gallwch eu gwneud.

Adran 6:

Sut mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio

Mae'r adran yn amlinellu'r broses 5 cam i wneud hawliad. Dyma nhw:

- Cam 1: cychwyn
- Cam 2: ymchwiliad
- Cam 3: meddygol
- Cam 4: cynnig
- Cam 5: cau'r broses

Wrth amlinellu'r broses hon, mae'r canllaw yn disgrifio:

- y prif gamau y mae angen i chi eu cymryd ar y porth, megis pa fotymau i glicio a pha wybodaeth sy'n cael ei harddangos ar sgriniau allweddol (mae enghraifft o'r sgrin trosolwg hawlio isod)
- rhai o'r cwestiynau pwysig y mae angen i chi eu hateb wrth i chi weithio drwy eich hawliad ar y porth
- rhai termau cyfreithiol a hawlio allweddol, megis y term 'digolledwr'
- y rhesymau dros adael y porth

Ym mhob adran rydym yn esbonio gweithiau perthnasol y protocol.*

* Os oes unrhyw wahaniaeth rhwng y canllaw hwn a'r protocol, y protocol sy'n cael blaenoriaeth.

Enghraifft: Sgrin trosolwg hawlio

OFFICIAL INJURY CLAIM Account Management Logout

Claim overview

Accident Date **01.01.2021-09:00** Created date **16/02/2021** Compensator that owns your claim
MIIC TEST INSURER 507

Portal Reference **OIC-32202**

Deadline for liability response **16/02/2021**

ANDREW BIRCHALL RGS VEHICLES 1.SIMMONDS ROAD WINCHEAP CANTERBURY KENT CT13RA TEL: 07824336533

What you need to do

The compensator is reviewing details of the accident. You do not need to do anything at this stage.

Application Submitted
Investigation
Medical
Offer
Claim Closed

Messages

New message(s) received

Click below link to send and view messages

[View or send message](#)

[Print Messages](#)

Losses/Fees

[View losses/fees](#)

[Add new losses/fees](#)

[Remove losses/fees](#)

[Print losses/fees](#)

My other actions

You have also the following action options available

[Change claimant contact details](#)

[Withdraw this claim](#)

My documents

Keep your claim up to date by uploading any evidence or files relevant to your claim

[View Documents](#)

[Upload Documents](#)

Pan fyddwch yn mewngofnodi i'r porth ac yn agor eich hawliad byddwch yn cyrraedd y sgrin 'Trosolwg o'r hawliad'.

Ar y sgrin 'Trosolwg o'r hawliad', gallwch bob amser weld y cam a gyrhaeddwyd neu'r cam nesaf i'w gymryd.

Gellir gweld unrhyw negeseuon yn y system yma; os oes neges newydd caiff ei hamlygu'n felyn.

Ar bob pwynt, byddwch yn gallu gweld pa un o'r camau allweddol rydych chi wedi'u cyrraedd neu eu pasio.

Wrth i chi symud ymlaen drwy'r porth, bydd amryw o ddogfennau yn cael eu cynhyrchu. Efallai y byddwch yn uwchlwytho rhai; bydd y system yn cynhyrchu eraill; gellir eu gweld, eu lawrlwytho a'u hargraffu yma.

Mae'r sgrin hon i'w gweld ar waelod y trosolwg hawlio yn ogystal â'r rhan fwyaf o sgriniau eraill.

Overview

Claimant

Accident

Responsible Parties

Vehicles and Witnesses

Claim

Liability

Medical

Claimant details

Title

Mr

First name

Test

Middle name

—

Last name

Claimant

Date of birth

01.01.1980

Home address

6-12 Capital Drive, Linford Wood,
Milton Keynes, GBR, MK146XT

Contact number

07889504230

Email address

sbunrep2@mailinator.com

National Insurance number

No insurance number because
Currently applying for one

Employment Status

Employed

Occupation

Test

Compensator Reference Number

—

Accident details

Accident Date

01/01/2021

Accident Time

09:00

Type of accident

Hit in the rear

Accident Description

This is a test claim.

Accident Location

MK146XT

Location details

—

?

FAQs

Click on the link to see answers to the most commonly asked questions

Learn more

Byddwch yn gallu dod o hyd i fanylion eich hawliad o fewn y tabiau hyn. Wrth i chi symud ymlaen drwy'r porth, bydd manylion yn cael eu diweddarau.

4. Sut gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth hwn

4.1 Gofynion i wneud hawliad

Gallwch wneud hawliad drwy'r porth os:

- ydych yn gwneud hawliad anaf personol o hyd at £5,000
- nid yw gwerth eich hawliad (gan gynnwys eich anaf ac iawndal protocol arall) yn fwy na £10,000
- ydych yn 18 oed neu'n hŷn pan fydd yr hawliad yn cael ei gofrestru ar y porth
- digwyddodd y ddamwain yng Nghymru neu Lloegr
- digwyddodd y ddamwain ar neu ar ôl [31 Mai 2021]
- oeddech y tu mewn i gerbyd
- ydych chi'n credu bod rhywun arall yn gyfrifol naill ai'n llawn neu'n rhannol am y ddamwain
- bod gennych fanylion cerbyd y person a achosodd y ddamwain
- oedd y gyrrwr ar fai mewn cerbyd gyda phlât rhif cofrestru yn y DU

Os yw eich hawliad am anaf personol yn werth mwy na £5,000 neu os yw'ch hawliad (gan gynnwys anaf ac iawndal protocol arall ([gweler 1.1](#)) yn werth mwy na £10,000 yna nid y porth hwn yw'r lle cywir i ddechrau eich hawliad ac fe ddylech ofyn am gyngor (bydd eich cynghorydd yn egluro'r sefyllfa ar gostau i chi ([gweler 1.2.3.1](#))).

Cofiwch: os yw NVC wedi'u cynnwys ar hyn o bryd, gallai hynny olygu bod eich cyfanswm ffigur yn dod i fwy na £10,000 ac efallai y gallwch gael cyngor cyfreithiol ([gweler 1.2.3.1](#)). Fodd bynnag, gallwch barhau i ddefnyddio'r porth cyn belled â bod yr anaf a'r iawndal protocol o fewn y terfynau a osodwyd uchod ([gweler 1.1.1](#)).



4.2 Pan na fyddwch yn gallu defnyddio'r porth

Mae Adran 4.3 o'r **Protocol Cyn Gweithredu** yn disgrifio pan na fyddwch yn gallu defnyddio'r porth.

Yn gryno, ni fyddwch (fel yr hawliwr) yn gallu defnyddio'r porth a bydd angen i chi ofyn am gyngor os:

- yw eich hawliad anaf dros £5,000, neu ynghyd ag iawndal protocol arall mae eich hawliad dros £10,000.
- rydych yn barti gwarchodedig. Mae parti gwarchodedig yn un a ddiffinir gan y **Protocol Cyn Gweithredu** (gweler 4.3(g)) fel "parti, neu barti arfaethedig, heb y gallu i gynnal achos" (dolen)
- os oes gennych anaf personol ac nid oeddech y tu mewn i gerbyd, er enghraifft ar feic modur neu feic
- bod eich anafiadau wedi'u hachosi'n rhannol gan doriad y diffynnydd o adran 53 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati (1974), er enghraifft cawsoch eich anafu yn disgyn oddi ar do tra yn y gwaith

- mae eich hawliad yn ymwneud â thor-dyletswydd sy'n ddyledus i ddefnyddiwr ffordd gan berson nad yw'n ddefnyddiwr ffordd
- mae eich hawliad yn erbyn gyrrwr heb ei olrhain fel y'i diffinnir gan Gytundeb Gyrwyr Heb eu Holrhain 2017 neu unrhyw Gytundebau Gyrwyr Heb eu Holrhain dilynol neu atodol
- roeddech yn ddefnyddiwr ffordd agored i niwed adeg y ddamwain, er enghraifft beiciwr modur, teithiwr piliwn, teithiwn mewn car ochr ynghlwm wrth feic modur, cadair olwyn neu gadair olwyn bweredig, ar sgwter symudedd, ar feic neu feic pedal arall, yn marchogaeth ceffyl neu gerddwr
- naill ai rydych chi (fel hawliwr) neu'r diffynnydd yn gynrychiolydd personol i berson ymadawedig
- yr ydych yn fethdalwr ar hyn o bryd
- yw cerbyd y diffynnydd wedi'i gofrestru y tu allan i'r Deyrnas Unedig

O dan yr amgylchiadau hyn dylech ofyn am gyngor a chymorth annibynnol, er enghraifft gan gynrychiolydd cyfreithiol neu eich cwmni yswiriant, y gallai'r gost fod yn adenilladwy o'r digolledwr. Bydd eich cynghorydd yn gallu eich arwain ynghylch a allwch adennill unrhyw un o'ch costau cyfreithiol gan y parti arall.

4.3 Cyfarwyddiadau pellach ar ddefnyddio porth

Mae rhai sefyllfaoedd lle bydd y porth yn rhoi cyfarwyddiadau pellach i chi ar y camau nesaf:

- os oes gennych anaf personol ond nad oes gennych rif cofrestru'r cerbyd. Yn yr achos hwn, efallai y gallai Swyddfa'r Yswirwyr Modur helpu
- os oes gennych anaf personol a'r cerbyd rydych chi'n credu oedd yn gyfrifol â phlatiau rhif tramor, efallai y byddai Cerdyn Gwyrdd Yr Yswirwyr Modur yn gallu helpu

4.4 Prisio

Cofiwch: efallai hoffech ofyn am gyngor neu arweiniad pellach am werth eich hawliad (**gweler 1.2.3.1**)

Gallwch ddefnyddio'r porth os:

- ydych yn gwneud hawliad anaf personol o hyd at £5,000
- nid yw gwerth eich hawliad (gan gynnwys eich hawliad am anaf personol ac iawndal protocol arall) yn fwy na £10,000
(**gweler y tabl ar y dudalen nesaf**)

Eich cam cyntaf, felly, yw asesu gwerth eich hawliad i weld a ddylech fod yn defnyddio'r porth hwn.

Bydd y gwerth yn dibynnu ar eich anaf ac unrhyw golledion eraill a gafwyd o ganlyniad i'r ddamwain neu'r anaf. Mae'r tabl isod yn nodi'r hyn sydd angen i chi ei ystyried wrth asesu gwerth eich hawliad.

Fel rhan o'r broses hon, bydd gofyn i chi hefyd gael adroddiad meddygol gan arbenigwr meddygol achrededig. Fodd bynnag, yn aml nid yw'n glir yn fuan ar ôl damwain a chyn i chi gael eich adroddiad meddygol pa mor hir y gallai unrhyw anafiadau eu cymryd i'w datrys. Felly, gallwch ailedrych a diwygio gwerth eich colledion (nid eich anaf) wrth i chi fynd drwy'r porth, hyd nes y byddwch yn gofyn i'r digolledwr am gynnig.

Os daw'n amlwg yn ddiweddarach nad ydych yn gwella a gall eich hawliad fod yn uwch na'r lefelau a amlinellir uchod, byddai'n well ceisio cyngor ar wahân ynghylch a yw'r porth hwn yn parhau i fod y lle gorau ar gyfer eich hawliad. Bydd cynghorydd yn gallu eich hysbysu am y gost ac a oes modd adfer unrhyw ran o'r gost honno gan y gyrrwr cyfrifol.

Dylid nodi wrth ystyried gwerth eich anaf y bydd y mwyafrif llethol o hawliadau atchwip a'r rhan fwyaf o anafiadau meinwe meddal eraill yn cael eu prisio am lai na £5,000.

Mae'r tabl isod yn nodi'r hyn y gallwch chi hawlio amdano. Bydd angen i chi allu profi pob eitem a hawlir naill ai drwy gadw derbynebaw (er enghraifft ar gyfer teithio) neu drwy'r adroddiad meddygol am eich anaf:

Atchwip Gweler Adran 4.4.1. >	Os ydych wedi dioddef anaf (neu anafiadau) atchwip i'ch gwddf, eich cefn neu'ch ysgwydd bydd hyn yn cael ei brisio drwy gyfeirio at atchwip yn unig tariff wedi'i osod yn ôl y gyfraith). Bydd yr arbenigwr meddygol yn nodi yn yr adroddiad meddygol pa mor hir rydych chi wedi dioddef, byddwch yn dioddef neu'n debygol o ddioddef gyda'ch anaf; gallwch groesgyfeirio'r wybodaeth honno yn erbyn y tariff. Ni fyddwch yn gwybod yn union pa mor hir yr ydych yn debygol o gael eich anaf (neu anafiadau) nes i chi gael eich adroddiad meddygol, ond byddwch yn gallu rhoi amcan bras o werth eich hawliad trwy ystyried y tariff.	Anaf heb fod yn atchwip Gweler Adran 4.4.2. >	Os ydych wedi dioddef anaf nad yw'n atchwip (er enghraifft bys wedi'i dorri), yna ni fydd y tariff yn berthnasol i'ch hawliad anaf neu'r rhan honno o'ch hawliad anaf os ydych wedi dioddef anaf atchwip ac anaf nad yw'n ymwneud ag atchwip. Dylech adolygu adrannau perthnasol Canllawiau'r Coleg Barnwrol (JCG) a fydd yn rhoi syniad i chi o werth tebygol y rhan hon o'ch hawliad (Dolen). Gan nad oes tariff ar gyfer anaf nad yw'n atchwip, bydd angen i chi drafod gwerth yr anaf nad yw'n atchwip gyda'r digolledwr unwaith y byddwch wedi gofyn am gynnig. Mae'r JCG yn rhoi man cychwyn i chi ar gyfer y trafod hwnnw ac am brisio eich hawliad ar y cychwyn.
Atchwip a mân anaf seicolegol Gweler Adran 4.4.1. >	Os credwch, yn ogystal ag anaf (neu anafiadau) atchwip eich bod wedi cael mân anaf seicolegol, fel sioc neu bryder teithio, mae eich hawliad yn dal i gael ei brisio drwy gyfeirio at dariff atchwip a mân anafiadau seicolegol. Fel arall mae'r un pwyntiau a wnaed yn yr adran atchwip uchod yn berthnasol.	lawndal protocol arall – yn gysylltiedig ag anafiadau Gweler Adran 5 >	Efallai eich bod wedi wynebu colledion o ganlyniad i'ch anaf (er enghraifft colli enillion, costau teithio ar gyfer mynychu apwyntiadau meddygol, presgripsiynau, ffisiotherapi). Dylech gadw derbynebaw ar gyfer yr eitemau hyn lle bo modd neu gael prawf ar gyfer eitemau eraill (er enghraifft colli enillion).
Cynnydd mewn amgylchiadau eithriadol Gweler Adran 4.4.1.1 >	Lle mae gennych anaf atchwip neu anaf atchwip gyda mân anaf seicolegol a bod yr anaf/anafiadau a gawsoch yn eithriadol, efallai y bydd gennych hawl i gynnydd o hyd at 20% o'r swm tariff. Dylech egluro pam eich bod yn credu bod eich anaf yn eithriadol i'ch arbenigwr meddygol, a fydd yn gwneud sylwadau ar y mater. I fod yn eithriadol mae'n rhaid i'r anaf fod yn eithriadol o ddifrifol a/neu mae eich amgylchiadau wedi cynyddu eich dioddefaint o ganlyniad i'r anaf atchwip (ac mae'r amgylchiadau hynny'n eithriadol).	lawndal protocolau arall – difrod i eiddo Gweler Adran 5 >	Efallai eich bod wedi wynebu colledion o ganlyniad i'r ddamwain (er enghraifft cost y gwaith atgyweirio rydych wedi ei dalu eich hun, difrod i eiddo a oedd yn y car adeg y ddamwain, colli enillion oherwydd bod angen eich car wedi'i ddifrodi arnoch i weithio). Dylech gadw derbynebaw ar gyfer yr eitemau hyn lle bo modd neu gael prawf ar gyfer eitemau eraill (er enghraifft colli enillion).

Unwaith y byddwch wedi casglu'r holl wybodaeth am werth eich hawliad, dylech wirio yn gyntaf bod gwerth tebygol eich hawliad anaf personol yn llai na £5,000. Os ydych chi'n fodlon mai dyma'r achos, mae'n rhaid i chi wedyn wirio, pan fyddwch chi'n ychwanegu gwerth yr iawndal protocol arall (yn gysylltiedig ag anaf a difrod i eiddo), bod y swm cyffredinol yn llai na £10,000.

Dylech nodi, lle mae gennych gostau cerbydau nad ydynt yn gysylltiedig â phrotocol (NVC) (**gweler 1.1.1**). Nid yw'r rhain yn cael eu cyfrif fel rhan o werth eich hawliad wrth benderfynu a allwch chi ddefnyddio'r porth. Fel arfer bydd eich yswiriwr neu'r sefydliad arall yn ceisio adennill y colledion hyn ar wahân ar eich rhan.

Os, ar ôl i chi ofyn am gynnig gan y digolledwr, na allwch gyrraedd setliad, bydd angen ychwanegu'r costau cerbyd di-brotocol (NVC) at eich hawliad cyn i chi fynd i'r llys. Os byddwch yn cyrraedd y cam hwnnw, bydd y porth yn eich arwain trwy gael y wybodaeth hon.

Cofiwch: hyd nes y cewch eich adroddiad meddygol, mae unrhyw brisiad o'ch hawliad yn amodol.

Os ydych yn credu y bydd gwerth eich hawliad dros y bandiau gwerth a nodir uchod, nid y porth yw'r lle cywir i ddechrau eich hawliad ac efallai y byddwch am ofyn am gyngor (**gweler 1.2.3.1**).

4.4.1 Prisio atchwip

Mae'r hyn a olygir gan 'Anaf atchwip' wedi'i nodi yn Neddf Atebolrwydd Sifil 2018, Rhan 1.

(Deddf Atebolrwydd Sifil 2018).

Mae unrhyw anaf (neu anafiadau) atchwip o'r gwddf, cefn neu ysgwydd sy'n gwella'n llawn o fewn 2 flynedd yn cael eu prisio drwy ddiffinlog a nodir **yma**. Os oes gennych anafiadau atchwip i'r gwddf a'r cefn, mae swm y tariff yn ymwneud â'r ddau anaf hyn ac i benderfynu ar y swm cywir rydych chi'n edrych ar yr anaf mwy difrifol. Os, yn yr enghraifft hon mae'r anaf atchwip i'r cefn yn gwella'n llawn o fewn 2 fis a'r gwddf o fewn 7 mis, bydd y swm tariff cywir ar gyfer eich anaf yn y braced mwy na 6 mis ond dim mwy na 9 mis.

Mae tariff ar wahân lle, yn ogystal â'r anaf/anafiadau atchwip, rydych hefyd yn dioddef unrhyw fân anaf seicolegol megis mân sioc neu bryder teithio. Os cawsoch anaf seicolegol mwy difrifol, dylid prisio hynny ar wahân.

Bydd y tariff yn cael ei adolygu nesaf yn 2024 ar y cynharaf.

4.4.1.1 Cynnydd mewn amgylchiadau eithriadol

Os yw eich anaf personol yn ymwneud ag atchwip, efallai y gallwch hawlio 'cynnydd' ar y swm tariff a nodir ar gyfer yr anaf/anafiadau atchwip. Yr uchafswm cynnydd a ganiateir yw 20% o'r swm tariff.

Fodd bynnag, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gallwch chi hawlio hyn. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi brofi bod gradd poen, dioddefaint neu golli amwynder (effaith eich anafiadau ar eich bywyd o ddydd i ddydd) a achosir gan yr anaf/anafiadau atchwip yn golygu bod hyn yn briodol.

Er enghraifft:

- mae'r anaf atchwip neu un neu fwy o anafiadau atchwip yn eithriadol o ddifrifol
- mae eich amgylchiadau wedi cynyddu'r boen, dioddefaint neu golli amwynder a achoswyd gan yr anaf/anafiadau
- mae'r amgylchiadau hynny'n eithriadol

Os ydych yn penderfynu gwneud hawliad am gynnydd, mae'n rhaid i chi esbonio:

- sut yr ydych yn bodloni meini prawf yr 'amgylchiadau eithriadol'
- pa ganran o gynnydd rydych yn ei hawlio

Dylech ddarparu tystiolaeth sy'n cefnogi eich hawliad. Os ydych yn bwriadu defnyddio'r adroddiad meddygol fel tystiolaeth, dylech sicrhau ei fod yn cynnwys y wybodaeth am yr amgylchiadau eithriadol.

4.4.2 Prisiad heb atchwip

O ganlyniad i'ch damwain, efallai eich bod wedi cael anaf atchwip a/neu anaf heb atchwip (er enghraifft bys wedi'i dorri). Nid oes tariff sefydlog ar gyfer yr anaf nad yw'n atchwip a bydd angen i chi ystyried prisio'r elfen honno o'ch hawliad ar wahân i unrhyw dariff.

Gall canllaw o'r enw Canllawiau'r Coleg Barnwrol (JCG) helpu gyda hyn, neu efallai y byddwch am ofyn am gyngor, y gall fod angen i chi dalu amdano.

Mae adrannau perthnasol y JCG i'w gweld ([yma](#)).

Mae'r JCG yn cael ei ddiweddarau bob dwy flynedd fel arfer ac mae'n nodi'r setliadau ar gyfer gwahanol fathau o anafiadau. Efallai y bydd y ffigurau'n newid yn ystod eich hawliad a dylech eu gwirio eto cyn cytuno ar setliad terfynol gyda'r sawl sy'n rhoi'r iawndal. Fodd bynnag, mae'n ganllaw da ar gyfer gwneud amcangyfrif cychwynnol o'ch hawliad.

Cofiwch mai canllaw yn unig yw'r ffigurau a nodir yn y JCG ac os oes gennych nifer o anafiadau nad ydynt yn anafiadau atchwipio, ni fyddwch yn cael cynnig swm ar gyfer pob anaf, ond cyfanswm sy'n cynrychioli'r anaf cyffredinol.

Os oes gennych anaf atchwipio ac anaf nad yw'n anaf atchwipio (cymysg), byddwch yn cael cynnig swm cyffredinol ar gyfer yr anafiadau. Bydd y porth yn dangos swm y tariff ar gyfer yr anaf atchwipio a swm ar wahân ar gyfer unrhyw anafiadau arall.

Mae'r Llys Apêl wedi rhoi arweiniad ynghylch sut mae prisio anaf cymysg ac mae wedi nodi dull tri cham. Mae'r dull hwn wedi'i gymeradwyo gan y Goruchaf Lys.

Dylech:

1) defnyddio'r tariff i gyfrifo eich hawliad ar gyfer anaf atchwipio

2) cyfrifo eich hawliad ar gyfer anafiadau eraill

3) camu'n ôl i ystyried y gorgyffwrdd (os oes gorgyffwrdd) a'i dynnu oddi ar y ffigur cyffredinol.

Mae'r Llys Apêl wedi egluro terfynau'r gorgyffwrdd drwy ddweud na all y ffigur cyffredinol fyth fod yn llai na'r swm ar gyfer anaf nad yw'n anaf atchwipio.

Bydd y ffigur ar y system ar gyfer anaf nad yw'n anaf atchwipio yn cael ei ddangos ar ôl tynnu unrhyw orgyffwrdd. Fel arfer, mae gorgyffwrdd yn cael ei ddefnyddio oherwydd bod angen i chi ystyried yr anaf yn ei gyfanrwydd. Rhaid i'r cynnig adlewyrchu effaith gyfunol yr anafiadau ar lefel y boen a'r anhwylystod a ddioddefwyd. Yn y blwch sylwadau ar gyfer yr anaf nad yw'n anaf atchwipio, dylai'r sawl sy'n rhoi'r iawndal nodi sut mae wedi cyfrifo'r swm a gynigir. Os nad yw wedi gwneud hynny, efallai y byddwch am anfon neges drwy'r porth at y sawl sy'n rhoi'r iawndal i ofyn iddo am esboniad ynghylch sut y gwnaeth ei benderfyniad.

Enghreifftiau ymarferol

Wrth roi canllawiau, ystyriodd y Llys Apêl ddau achos: Rabot v Hassam a Briggs v Laditan.

Rabot v Hassam

Cafodd yr hawlydd anaf atchwipio ac anaf i feinwe meddal y ddau ben-glin. Roedd yr adroddiad meddygol yn nodi bod yr anaf atchwipio am wyth i 10 mis a bod yr anaf i'r pengliniau am bedwar i bum mis.

Anaf atchwipio (1)	£1,390
Anafiadau eraill (2)	£2,500
Cyfanswm cyn y gorgyffwrdd (1+2)	£3,890
Didyniadau ar gyfer gorgyffwrdd	-£790
Swm a ddyfarnwyd (byth yn llai na'r ddau uchod)	£3,100

Briggs v Laditan

Fe wnaeth yr hawlydd ddioddef anaf atchwipio ac anaf i feinwe meddal y pen-glin chwith, y penelin chwith, y glun a'r frest. Roedd yr adroddiad meddygol yn nodi naw mis ar gyfer yr anaf atchwipio, chwe mis ar gyfer yr anaf i'r pen-glin a rhwng un a thri mis ar gyfer yr anafiadau eraill.

Anaf atchwipio (1)	£840
Anafiadau eraill (2)	£3,000 (£2,250 ar gyfer y pen-glin a £750 ar gyfer anafiadau eraill)
Cyfanswm cyn y gorgyffwrdd (1+2)	£3,840
Didyniadau ar gyfer gorgyffwrdd	-£340
Swm a ddyfarnwyd (byth yn llai na'r ddau uchod)	£3,500


Mae'r JCG yn rhoi esboniadau eithaf manwl o'r mathau o anafiadau. Gallwch ddod o hyd i adran berthnasol y JCG drwy chwilio yn erbyn yr ardal neu'r math o anaf (er enghraifft coes, dannedd, creithiau neu seiciatrig). Ar ôl i chi ddod o hyd i'r ardal iawn, mae angen i chi edrych ar y disgrifiad o'r anaf er mwyn penderfynu pa un sy'n cyd-fynd orau â'ch symptomau.

Hefyd, os byddwch yn gwella'n llwyr ar ôl eich anaf o fewn tri mis, dylech edrych ar yr adran mân anafiadau. Mae hyn yn berthnasol os oes gennych anaf parhaus fel anaf i feinwe meddal eich pen-glin. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol os oes gennych anaf 'untro', fel colli dant.

Wrth edrych ar y canllaw, fe welwch fod rhai o'r ystodau yn eithaf eang. Er mwyn gallu cyfrifo gwerth eich anaf, bydd angen i chi ystyried y testun a ddarperir yn y JCG i roi cyd-destun i'ch anaf, neu efallai y bydd angen i chi ystyried y bracedi y naill ochr a'r llall i benderfynu lle mae eich anaf yn ffitio orau.

Er enghraifft, os oes gennych fân doriadau a chrafiadau ar eich coesau a'ch bod wedi gwella'n llwyr o fewn 10 diwrnod, byddech yn edrych ar yr adran mân anafiadau. Mae'r diagram isod yn dangos ffordd syml o gyfrifo eich hawliad.

Mae'n dangos ystod o ffigurau ar gyfer adferiad llawn o fewn saith diwrnod, ac ail ystod ar gyfer adferiad llawn o fewn 28 diwrnod. Byddech yn prisio eich hawliad drwy gyfeirio at ran isaf ystod dau, gan nodi bod yr ystod flaenorol yn cwmpasu hyd at saith diwrnod.



4.4.3 Beth os yw eich hawliad dros y terfynau gwerth?

Os yw eich hawliad am anaf yn werth mwy na £5,000 neu os yw'ch hawliad (gan gynnwys anaf ac iawndal protocol arall (**gweler 1.1**) yn werth mwy na £10,000 yna nid y porth hwn yw'r lle cywir i ddechrau eich hawliad ac fe ddylech ofyn am gyngor (bydd eich cynghorydd yn egluro'r sefyllfa ar gostau i chi (**gweler 1.2.3.1**)).

Cofiwch: os yw NVC wedi'u cynnwys ar hyn o bryd, gallai hynny olygu bod eich cyfanswm ffigur yn dod i fwy na £10,000 ac efallai y byddwch yn gallu cael cyngor cyfreithiol (**gweler 1.2.3.1**). Fodd bynnag, gallwch barhau i ddefnyddio'r porth cyn belled â bod yr anaf a'r iawndal protocol o fewn y terfynau a osodwyd uchod (**gweler 1.1.1**).

4.4.3.1 Ceisio cyngor

Mae gwahanol ffynonellau o gyngor y gallech eu defnyddio – er enghraifft eich yswiriwr neu gy nghorydd cyfreithiol eich hun, er y gall fod angen i chi dalu am wasanaethau cynghorydd cyfreithiol. Bydd eich cynghorydd yn gallu eich arwain ynghylch a allwch adennill unrhyw un o'ch costau cyfreithiol gan y parti arall.

5. Yr hyn y gallwch wneud hawliad amdano

5.1 Cyflwyniad

Gallwch hawlio am anaf personol ac iawndal arall cysylltiedig â damwain (a elwir yn iawndal neu golledion protocol arall, **gweler 5.2**). Gallwch hefyd hawlio am unrhyw ffioedd y bu'n rhaid i chi eu talu (er enghraifft ffi adroddiad yr heddlu). Os oes angen i chi dalu unrhyw ffioedd llys gallwch hefyd geisio adennill y gost hon gan y digolledwr, er gyda ffioedd llys, efallai y byddwch yn gymwys i gael y rhain wedi'u lleihau neu eu hepgor yn dibynnu ar eich amgylchiadau ariannol.



5.2 Colledion

Mae’r mathau o golledion y gallwch chi hawlio amdanynt yn cael eu dangos yn y broses cipio hawliad isod:

Math o golledion	
Math o golled	Enghreifftiau o dystiolaeth berthnasol
Eiddo- atgyweiriadau/colled llwyr	Anfoneb atgyweirio neu amcangyfrif, ffotograffau adroddiad peiriannydd o ddifrod
Eiddo- storio/adfer	Anfoneb adfer/storio
Eiddo – cerbyd dros dro	Anfoneb llogi
Eiddo- colli defnydd	Manylion y dyddiadau pan oeddech heb ddefnyddio’ch cerbyd
Eiddo- cost teithio	Derbynebau teithio (Taksi, trê’n bws)
Eiddo- gormodedd	Cadarnhad o daliad gormodedd y polisi
Eiddo- lleihad	Adroddiad peiriannydd, cost atgyweirio, ffotograffau o ddifrod
Eiddo- eitemau eraill	Derbynebau, amcangyfrifon, ffotograffau o ddifrod
Costau triniaeth yn gysylltiedig ag anafiadau	Derbynebau gan arbenigwr fu’n trin
Costau presgripsiwn cysylltiedig ag anafiadau	Costau meddyginiaeth
Colli enillion yn gysylltiedig ag anaf	Llythyr gan gyflogwr, slipiau cyflog, cyfrifon
Costau gofal sy’n gysylltiedig ag anafiadau	Manylion yr oriau a dreuliwyd, derbynneb am y gofal a dderbyniwyd
Costau teithio’n gysylltiedig ag anafiadau	Derbynebau ar gyfer teithio i apwyntiadau meddyg teulu / ysbyty / triniaeth
Costau eraill cysylltiedig ag anaf	Unrhyw dderbynebau eraill, amcangyfrifon

5.2.1 lawndal am eich anaf personol

Rhaid i dystiolaeth o’ch anaf atchwip fod ar ffurf adroddiad meddygol (**gweler 6.4**) a, lle mae gennych anaf nad yw’n atchwip, bydd y dystiolaeth fel arfer ar ffurf adroddiad meddygol hefyd. Bydd y porth yn eich cynorthwyo i gael eich adroddiad meddygol neu eich cyngori ar y broses.

Cofiwch: efallai y bydd gennych anafiadau atchwip, lle mae iawndal yn cael ei benderfynu gan y system dariff, neu anafiadau nad ydynt yn atchwip, lle gall y symiau iawndal amrywio. Ewch yn ôl i **4.4** adolygu.

5.2.2 Colledion yn ymwneud â’ch anaf personol

Gallwch wneud hawliad am unrhyw golledion sy’n codi o ganlyniad i’ch anaf/anafiadau. Mae enghreifftiau’n cynnwys cost unrhyw driniaeth neu golli enillion oherwydd amser i ffwrdd o’r gwaith. Bydd angen i chi uwchlwytho dystiolaeth o’r colledion hyn ar y porth (er enghraifft derbyneb ar gyfer sesiynau triniaeth ffisiotherapi).

Lle nad ydych wedi dechrau triniaeth eto, efallai y byddwch am gysylltu’n uniongyrchol â’r digollewr i drafod a allant drefnu hyn ar eich cyfer.

5.2.3 Colledion oherwydd difrod i eiddo yn ymwneud â'r ddamwain

Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw ddifrod i eiddo oherwydd y ddamwain ond heb fod yn gysylltiedig â'r anaf ei hun. Gallai enghreifftiau gynnwys unrhyw eiddo a ddifrodwyd yn y ddamwain neu gostau teithio rydych wedi eu talu oherwydd na allwch ddefnyddio'ch cerbyd sydd wedi'i ddifrodi. Bydd angen i chi uwchlwytho tystiolaeth o'r costau hyn ar y porth. Bydd y colledion hyn yn cynnwys costau cerbydau (gweler isod).

5.2.4 Costau Cerbydau

Mae dau fath o gostau cerbyd: costau cerbyd protocol a chostau cerbydau nad ydynt yn brotocol. Mae'r ddau fath yn cwmpasu'r colledion a restrir isod. Y gwahaniaeth rhwng y mathau o gostau cerbyd yw i bwy mae'r arian sy'n daladwy ar setlo'r hawliad.

- Costau cerbydau protocol yw colledion yr ydych wedi talu amdanynt o'ch poced eich hun, neu gan ffrind neu berthynas. Ar adeg setlo'ch hawliad, bydd y swm a gewch naill ai'n eiddo i chi neu byddech yn ei ddefnyddio i ad-dalu'ch ffrind neu berthynas
- Mae costau cerbydau nad ydynt yn brotocol yn

golledion y mae cwmni neu sefydliad arall wedi eich cynorthwyo/eich helpu â nhw. Er enghraifft, efallai bod eich yswiriwr wedi talu eich costau atgyweirio, neu fod sefydliad llogi credyd wedi darparu cerbyd llog i chi. Ymdrinnir â'r colledion hyn ar wahân i'ch colledion porthol, ond bydd gan y sefydliad hyn hawl i hawlio costau o'r fath yn eich enw chi. Os bydd angen i chi fynd i'r llys, bydd angen i chi ychwanegu'r colledion hyn at eich hawliad a, phan fydd wedi'i ddatrys, byddai'r sefydliadau wedyn yn gofyn i chi dalu'r symiau hynny iddynt.

Rhestrir costau cerbydau yn y Protocol Cyn Gweithredu fel:

- gwerth cyn damwain y cerbyd – dyma'r gwahaniaeth yng ngwerth y cerbyd yn union cyn i'r ddamwain ddigwydd a'i werth oherwydd y difrod a achoswyd gan y ddamwain
- cost trwsio'r cerbyd
- gormodedd yswiriant cerbyd
- cost llogi cerbyd
- ffioedd adfer a storio cerbyd

Pan fo'r colledion hyn yn gostau cerbydau protocol gofynnir i chi roi manylion am y colledion cyn i chi ofyn am gynnig. Lle maen nhw'n gostau cerbydau nad ydynt yn brotocol byddant fel arfer yn cael eu trin y tu allan i'r broses hon. Fodd bynnag, os na allwch gytuno ar setliad yr hawliad a dewis mynd i'r llys i ofyn iddo brisio eich hawliad, bydd angen i chi ychwanegu'r costau cerbydau nad ydynt yn brotocol ar y cam hwnnw.

Ffioedd 5.3

Nid yw ffioedd, y cyfeirir atynt weithiau fel alldaliadau, yn ffurfio rhan o'ch hawliad. Wrth gyfrifo a yw hawliad yn syrthio uwchlaw neu'n is na'r trothwy £5,000 neu £10,000, ni ddylid cynnwys gwerth unrhyw ffioedd.

Gallwch hawlio'ch ffioedd yn ôl ar y porth dim ond ar ôl i chi gyrraedd setliad ar gyfer colledion neu ar ôl i chi ddechrau achos llys a setliad wedi'i gytuno yn y llys.

Yr unig ffioedd y gallwch hawlio amdanynt yw:

- ffioedd adroddiadau meddygol (os nad ydynt eisoes yn cael eu talu drwy ddigolledu)
- ffioedd unrhyw arbenigwyr eraill y mae angen eu tystiolaeth i brofi eich hawliad (er enghraifft cyfrifydd)
- ffioedd adroddiadau'r heddlu
- ffioedd cofnodion meddygol
- ffioedd llys
- costau cynrychiolydd cyfreithiol sefydlog

Mae'r mathau o ffioedd y gellir eu hawlio i'w gweld isod. Dim ond ar ôl i'r hawliad gael ei gyflwyno y bydd ffioedd yn ymddangos:

5.3.1 Ffioedd adroddiad meddygol

Mae gan adroddiadau meddygol cyntaf ffi sefydlog o £226 ynghyd â TAW ar gyfer hawliadau a gyflwynir ar neu ar ôl 6 Ebrill 2025. Ar gyfer hawliadau a gyflwynir cyn y dyddiad hwn, mae ffi sefydlog o £180 ynghyd â TAW. Trefnir y rhain drwy'r porth ac fe'u telir gan y digolledwr (oni bai eich bod wedi'ch cynrychioli).

Fel arfer bydd gan adroddiadau meddygol pellach (y rhai nad ydynt yn cynnwys yr un cyntaf) gost sefydlog a chânt eu trefnu a'u talu gan y digolledwr. **(gweler 6.4.2.2).**

Os ydych chi (fel yr hawliwr) yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr, mae angen i chi drefnu a thalu am eich adroddiad meddygol eich hun neu gallwch drefnu archwiliad meddygol yng Nghymru a Lloegr y bydd y digolledwr yn talu amdano.

5.3.2 Ffioedd ar gyfer unrhyw arbenigwyr eraill

Bydd ffioedd arbenigol meddygol nad ydynt yn sefydlog, neu ffioedd ar gyfer arbenigwyr eraill, ond yn cael eu talu hyd at uchafswm o £750.

5.3.3 Ffioedd adroddiad yr heddlu

Bydd heddluoedd gwahanol yn codi ffioedd gwahanol am eu hadroddiadau a bydd y costau'n amrywio yn ôl faint o wybodaeth sydd ei angen. Os cyfaddefir atebolrwydd, ni ddylai fod angen cael adroddiad gan yr heddlu.

5.4 Cyfnod cyfyngu

Mae cyfyngiadau amser penodol i wneud hawliad yn y llys, sy'n cael eu gosod yn ôl y gyfraith. Fel arfer mae gennych 3 blynedd o ddyddiad damwain i ddechrau hawliad. Nid yw hyn bob amser yn wir, er enghraifft os oeddech o dan 18 oed adeg y ddamwain ond dechreuodd yr hawliad yn y porth ar ôl eich pen-blwydd yn 18 oed, mae'r 3 blynedd yn rhedeg o'r dyddiad y gwnaethoch chi droi'n 18 oed yn hytrach na dyddiad y ddamwain.

Os yw 3 blynedd wedi mynd heibio ers eich damwain (neu os yw'n berthnasol eich pen-blwydd yn 18), gallwch gofnodi eich hawliad anaf personol ar y porth, ond mae'r digolledwr yn debygol o wadu atebolrwydd. Mae hyn yn golygu efallai na fyddwch yn gallu parhau gyda'ch hawliad. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y bydd angen i chi ofyn am gyngor **(gweler 1.2.3.1).**

Os daw'n amlwg ar unrhyw adeg y bydd 3 blynedd yn mynd heibio cyn y gallwch orffen y broses porth, dylech ddewis 'Mynd i'r llys' ar y porth a dechrau achos llys.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol nad yw dechrau hawliad ar y porth yn atal y cloc rhag rhedeg yn erbyn y terfyn amser. Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r terfynau amser ar gyfer dechrau hawliad o hyd. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, dylech ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol.

6. Sut mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio

Os ydych angen help, ffoniwch ein Canolfan Cymorth Porth. Ceir eu manylion cyswllt yn **adran 2** o'r canllaw hwn.

6.1 Camau yn y broses hawlio

Cam 1: Cychwyn

Byddwn yn gofyn i chi am eich hawliad, gan gynnwys:

- ble a phryd y digwyddodd y ddamwain
- anafiadau gawsoch chi yn y ddamwain
- cerbydau eraill yn y ddamwain
- pwy ydych chi'n teimlo oedd yn gyfrifol am y ddamwain

Cam 2: Ymchwiliad

Ar ôl i chi gyflwyno'ch hawliad, bydd Hawliad Anaf Swyddogol yn trosglwyddo hwn i'r cwmni yswiriant sy'n yswirio'r grrwr rydych chi'n teimlo oedd yn gyfrifol. Mae'r porth yn galw'r cwmni yswiriant yn 'ddigolledwr'. Bydd y digolledwr yn gwneud eu hymchwiliad eu hunain i'r hawliad.

Cam 3: Meddygol

Am anaf atchwip, bydd angen i chi gael eich archwilio gan arbenigwr meddygol achrededig, a fydd yn asesu eich anaf ac yn ysgrifennu adroddiad meddygol. Ar gyfer anaf nad yw'n atchwip, nid oes angen archwiliad meddygol o reidrwydd, er efallai y byddwch yn dymuno cael un, a/neu efallai y bydd y digolledwr yn gofyn i chi wneud hynny cyn ei fod yn barod i wneud cynnig i chi. Bydd y porth yn eich helpu i drefnu'r adroddiad meddygol (oni bai eich bod yn cael eich cynrychioli, ac os felly bydd eich cynrychiolydd yn ei drefnu).

Os ydych yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr, bydd yn rhaid i chi drefnu ar gyfer eich adroddiad meddygol eich hun (**gweler 6.4.2.4**).

Cam 4: Cynnig

Os derbynnir eich hawliad yn rhannol neu'n llawn, efallai y cynigir iawndal i chi, y gallwch ddewis ei dderbyn neu ei herio. Gallwch drafod gyda'r digolledwr trwy'r porth.

Cam 5: Cau'r broses

Mae amryw o bwyntiau ar y porth lle mae'n bosib cau hawliad, neu lle mae'r hawliad yn dod i ben. Gallai hyn gynnwys setliad hawliad, newid mewn amgylchiadau sy'n golygu nad yw'r protocol sy'n sail i ddefnydd o'r porth yn berthnasol mwyach neu benderfyniad i fynd i'r llys os nad oes modd dod i gytundeb.

6.2 Cam 1: Cychwyn

Mae'r traciwr ar eich sgrin 'Trosolwg o'r hawliad' yn dangos eich bod ar Gam 1: Cychwyn. Bydd y sgrin 'Trosolwg o'r Hawliad' hefyd yn egluro'r hyn sydd angen i chi ei wneud ar y cam hwn.

Yn yr adran hon, cewch eich tywys drwy:

- sgriniau gwefan a phorth
- beth sy'n digwydd os na allwch ddefnyddio'r porth neu os oes gennych anghenion hygyrchedd

6.2.1 Gwefan a phorth

6.2.1.1 Gwefan Hawlio Anafiadau Swyddogol

Ar www.officialinjuryclaim.org.uk byddwn yn dweud wrthyh:

- sut i wneud hawliad
- sut mae'r broses hawlio yn gweithio
- sut i gael hyd i atebion i'ch cwestiynau – mae'r adran 'Darganfod mwy' yn cynnwys ein tudalen cwestiynau cyffredin (Cwestiynau Cyffredin) a geirfa termau

O'r wefan, dewiswch 'Gwneud hawliad' i fynd i'r cam nesaf.

6.2.1.2 Cymhwyster a chofrestru

Yn yr adran hon gofynnir cyfres o gwestiynau cymhwysedd i chi. Os ydych yn gymwys i wneud hawliad drwy'r porth, yna gofynnir i chi greu cyfrif.

Ar ôl i chi greu cyfrif, cyflwynir hawliad cofrestru, a byddwch yn derbyn e-bost i actifadu eich cyfrif. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi sefydlu cyfrinair, nodi cod dilysu (y byddwch yn ei dderbyn trwy destun) a derbyn ein Cytundeb Defnyddiwr.

Unwaith y byddwch wedi sefydlu'ch cyfrif byddwch yn gweld y sgrin 'Gwneud hawliad anaf personol', sy'n cynnwys gwybodaeth am y broses hawlio.

Dewiswch 'Dechreuwch hawliad newydd' i fynd i'r cam nesaf.

6.2.1.3 Gwneud hawliad

Yn yr adran hon, bydd angen i chi roi manylion amdanoch eich hun, eich ymwneud â'r ddamwain, eich rhif Yswiriant Gwladol a statws cyflogaeth. Yna byddwn yn gwneud rhai gwiriadau ar eich hanes hawliadau ac yn cadarnhau eich hunaniaeth ymhellach gan ddefnyddio cronfa ddata Cyfnewid Hawliadau a Thanysgrifennu (CUE). (www.askCUE.co.uk). Mae'r system borth yn gofyn am y chwiliad hwn.

Wedyn bydd gofyn i chi 'Dywedwch wrthym am y ddamwain'. Mae hyn yn cynnwys manylion am:

- y ddamwain – beth ddigwyddodd a phryd
- unrhyw dystiolaeth camera dashfwrdd neu lun
- lleoliad y ddamwain
- unrhyw ymwneud heddlu
- y cerbyd yr oeddech ynddo
- unrhyw dystion
- y cerbyd rydych yn teimlo sy'n gyfrifol am y ddamwain
- y gyrrwr rydych chi'n teimlo sy'n gyfrifol am y ddamwain
- unrhyw gerbydau eraill dan sylw

Yna bydd gofyn i chi 'Dywedwch wrthym am yr anafiadau a ddioddefoch' Mae hyn yn cynnwys manylion am:

- natur unrhyw anafiadau
- unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith
- unrhyw sylw neu driniaeth feddygol

Wedyn bydd gofyn i chi 'Dywedwch wrthym am eich hawliad'. Mae hyn yn cynnwys manylion am:

- unrhyw help sydd ei angen i atgyweirio'ch cerbyd
- unrhyw gerbyd cyfnewid dros dro sydd ei angen
- unrhyw hawliad am eitemau eraill (a elwir yn golledion) oherwydd y ddamwain
- unrhyw ddogfennau i'w huwchlwytho

Gofynnir i chi hefyd am eich dewisiadau cyswllt. Defnyddir y rhain fel y gallwn gysylltu â chi gydag unrhyw ddiweddariadau.

Byddwch yn gallu gwirio'ch atebion cyn anfon eich hawliad.

Er mwyn cyflwyno'ch hawliad, gofynnir i chi lofnodi Datganiad Gwirionedd. Mae hyn yn bwysig iawn. Gellir dwyn achos am ddirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad ffug mewn dogfen a ddilyswyd gan Ddatganiad Gwirionedd.

6.2.2 Beth sy'n digwydd os na allwch chi ddefnyddio'r porth neu os oes gennych anghenion hygyrchedd

Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnoch i ddefnyddio'r porth neu wneud hawliad os:

- ydych yn siaradwr iaith dramor neu'n siaradwr Cymraeg
- nad yw'r broses ar-lein yn addas i chi (er enghraifft, rydych yn anghyfforddus wrth lenwi ffurflen hawlio ar-lein neu os oes gennych anghenion hygyrchedd) Noder: mae'r porth wedi cydymffurfio â Safonau Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau

Os yw hyn yn wir, yna bydd angen i chi gysylltu â Chanolfan Cynnal y Porth (mae manylion cyswllt yn [adran 2](#)). Byddant yn rhoi gwybod i chi pa gamau sydd angen i chi eu cymryd – er enghraifft a allwch dderbyn ffurflen gais bapur neu a allwch gwblhau'r broses hawlio gyda chymorth asiant gofal cwsmer (hynny yw, dros y ffôn neu drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu sydd ar gael ar gyfer y 10 iaith uchaf yng Nghymru a Lloegr).

6.3 Cam 2: Ymchwiliad

Mae'r traciwr ar eich sgrin 'Trosolwg o'r hawliad' yn dangos eich bod ar Gam 2: Ymchwiliad Bydd y sgrin 'Trosolwg o'r hawliad' yn egluro'r hyn sydd angen i chi ei wneud ar bob cam.

Yn yr adran hon, cewch eich tywys trwy:

- ymateb i benderfyniad atebolrwydd y digolledwr
- beth sy'n digwydd os na allwch ddefnyddio'r porth neu os oes gennych anghenion hygyrchedd

6.3.1 Ymateb i benderfyniad atebolrwydd y digolledwr

Mae atebolrwydd yn ymwneud â phwy achosodd y ddamwain ac felly pwy sy'n gyfrifol am unrhyw anaf a difrod. Mae atebolrwydd felly yn penderfynu pwy ddylai dalu unrhyw iawndal.

Pan fydd hawliad wedi ei nodi ar y porth, gall y digolledwr (fel arfer yswiriwr gyrrwr y cerbyd rydych chi'n credu achosodd y ddamwain) gynnal eu gwiriadau a'u hymchwiliadau hunaniaeth eu hunain. Ar ôl eu hymchwiliadau, bydd y digolledwr wedyn yn darparu ymateb atebolrwydd. Rhoddir hwn o fewn 30 diwrnod busnes o'r dyddiad y cofnodir yr hawliad ar y porth.

Wrth gyfrifo'r cyfnod o 30 diwrnod busnes (a phob cyfnod amser yn y broses hon) rydych chi'n dechrau cyfrif o'r diwrnod busnes llawn cyntaf ar ôl i chi gyflwyno'r hawliad. Os ydych chi, er enghraifft, yn cwblhau eich hawliad ar ddydd Mawrth yna'r diwrnod cyntaf sy'n dechrau'r cyfnod amser yw'r diwrnod busnes nesaf – yn yr enghraifft hon, dydd Mercher (gan gymryd nad oes yr un o'r dyddiau hyn yn ŵyl banc).

Pan fyddwch yn cwblhau'r holl wybodaeth am eich hawliad, bydd y porth yn rhedeg gwiriad i weld a yw unrhyw hawliadau eraill sy'n gysylltiedig â'r un ddamwain wedi'u nodi. Os oes unrhyw hawliadau cysylltiedig yn y porth, anfonir neges atoch yn cadarnhau bod dolen wedi'i chanfod. Does dim rhaid i chi gymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd. Bydd y digolledwr hefyd yn cael ei hysbysu.

Mewn rhai amgylchiadau bydd yswiriwr yn ymateb fel digolledwr ac yn dweud eu bod yn gweithredu fel 'yswiriwr RTA'. Mae hyn er ei bod yn bosibl nad yw'r gyrrwr ar fai wedi'i yswirio o dan y /contract yswiriant, mae gan yr yswiriwr ddyletswydd gyfreithiol o hyd i fodloni'ch hawliad. Os felly, bydd yr yswiriwr yn ymdrin â'ch hawliad ond efallai y bydd ganddo hawliau ar wahân yn erbyn y gyrrwr.

Os na chaiff digolledwr ei nodi, bydd y Swyddfa'r Yswirwyr Modur (MIB) neu ei hasiantau yn delio â'r hawliad. Bydd yr MIB yn darparu ymateb atebolrwydd o fewn 40 diwrnod busnes o'r dyddiad y cofnodir yr hawliad ar y porth.

Os mai naill ai'r yswiriwr RTA neu MIB yw'r digolledwr, efallai y byddant yn gofyn i chi lofnodi ffurf ar aseiniad fel y gallant wneud hawliad eu hunain yn erbyn y gyrrwr ar fai. Mae hyn yn arfer safonol, ond efallai byddwch yn dymuno cael cyngor os gofynnir i chi lofnodi aseiniad.

Bydd yr ymateb atebolrwydd yn un o'r canlynol, lle bydd y digolledwr yn:

- cyfaddef atebolrwydd yn llawn
- cyfaddef atebolrwydd yn rhannol
- cyfaddef nam (yn llawn neu'n rhannol) ond yn dadlau bod y ddamwain wedi achosi unrhyw anaf
- gwadu atebolrwydd

Mae'r ymatebion gwahanol hyn yn cael eu hesbonio'n fanylach isod.

6.3.1.1 Cyfaddef atebolrwydd yn llawn neu’n rhannol

Os yw’r digolledwr yn cyfaddef atebolrwydd yn llawn neu’n rhannol, mae’r wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn y blwch 'Beth sydd angen i chi ei wneud' ar eich tudalen 'Trosolwg o’r hawliad'.

Unwaith y bydd atebolrwydd yn cael ei dderbyn yn llawn neu’n rhannol, gallwch wedyn symud i’r cam nesaf lle byddwch yn dewis darparwr meddygol i drefnu archwiliad meddygol o’ch anafiadau. Gwnewch hyn drwy ddewis 'Ewch ymlaen i archwiliad meddygol'.

Os yw’r digolledwr ond yn cyfaddef atebolrwydd yn rhannol yn unig (hynny yw, cyfaddef cyfran ganrannol o atebolrwydd am y ddamwain) gallwch herio’r ymateb atebolrwydd hwn a chynnig cyfran ganrannol wahanol o atebolrwydd (gallwch wneud hyn uchafswm o 3 gwaith). Bydd y porth yn eich tywys drwy’r broses.

Pryd alla i herio?

Gallwch herio atebolrwydd ar yr un pryd ag y mae eich hawliad meddygol yn mynd yn ei flaen, a gallwch godi her ar unrhyw adeg nes i chi ofyn am gynnig. Fel arall, os ydych chi eisïau, gallwch aros a delio ag atebolrwydd ar y cam cynnig fel rhan o’ch negodi ar werth eich hawliad.

Beth yw goblygiadau atebolrwydd yn rhannol?

Mae cyfaddef atebolrwydd yn rhannol yn cyfeirio at dderbyn rhywfaint ond nid y cyfan o’r atebolrwydd am hawliad (er enghraifft derbyn 50% o’r atebolrwydd am y ddamwain). Os byddwch yn derbyn hyn, gwneir didyniad o 50% i unrhyw gynnig am eich colledion i adlewyrchu’r cytundeb hwn.

6.3.1.2 Cyfaddef bai (yn llawn neu'n rhannol) ond yn anghytuno bod y ddamwain wedi achosi unrhyw anaf

Mae'n bosibl y bydd y digolledwr yn cytuno bod y ddamwain wedi digwydd a'i fod yn rhannol neu'n llawn ar fai'r gyrrwr y teimlwch oedd yn gyfrifol. Fodd bynnag, gall y digolledwr anghytuno bod unrhyw anaf wedi'i achosi gan y ddamwain.

Ar y pwynt hwn, gallwch ddewis symud ymlaen i archwiliad meddygol neu benderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r hawliad.

Yn yr hawliadau hyn, gofynnir bob amser i'r arbenigwr meddygol achrededig a achosodd y ddamwain yr anaf, waeth beth fo'r sefyllfa o ran atebolrwydd. Felly, os ewch ymlaen i archwiliad meddygol, gofynnir i'r arbenigwr meddygol achrededig roi sylwadau ynghylch a achosodd y ddamwain eich anaf fel rhan o'r weithdrefn arferol.

6.3.1.3 Gwadu atebolrwydd

Os bydd y digolledwr yn gwadu atebolrwydd, byddwch yn gallu gweld pam drwy ddewis 'Gweld rhagor o fanylion' ar eich sgrin 'Trosolwg o'r hawliad'. Yna, rhaid i chi benderfynu pa gamau i'w cymryd drwy ddewis un o'r canlynol:

- derbyn gwadiad y digolledwr (Derbyn gwadiad)
- herio gwadiad y digolledwr (Herio gwadiad)
- mynd â'r hawliad i'r llys (mynd i'r llys)

Os ydych yn herio'r gwadiad, gallwch ychwanegu sylwadau yn y blwch i ddweud pam. Yna byddwch yn cadarnhau eich dewis trwy ddewis Cadarnhau ac Anfon. Bydd yr hawliad yn cael ei ddychwelyd i'r digolledwr, a fydd yn ystyried yr her ac yn penderfynu a ddylid gwneud unrhyw gynnig pellach.

Os ydych am fynd â'r hawliad i'r llys, gofynnir i chi gadarnhau'r penderfyniad drwy ddewis Cadarnhau ac Anfon eto. Ar yr adeg honno bydd angen i chi gwblhau rhestr pecyn llys – bydd y porth yn rhoi manylion pellach i chi am y broses hon.

6.3.1.4 Taliad interim

Lle mae'r digolledwr wedi cyfaddef atebolrwydd yn llawn neu'n rhannol, neu wedi cyfaddef bai am y ddamwain (yn llawn neu'n rhannol) ond wedi dadlau bod y ddamwain wedi achosi unrhyw anaf i'r hawliwr, neu fod y llys wedi pennu atebolrwydd o'ch plaid naill ai'n llawn neu'n rhannol, byddwch yn gallu gofyn am daliad interim am iawndal.

Dim ond ar gyfer iawndal protocol arall sy'n gysylltiedig â'ch anaf personol y gwneir taliad interim, megis costau teithio i'r archwiliad meddygol neu eiddo a ddifrodwyd yn y ddamwain neu ormodedd eich polisi. Nid yw ar gyfer yr anaf ei hun.

I symud ymlaen, ewch i'r adran 'Fy nghamau gweithredu eraill' ar eich sgrin 'Trosolwg o'r hawliad' a dewiswch Gofyn am daliad interim. Yna bydd y digolledwr yn ymateb i'ch hawliad am daliad interim o fewn 15 diwrnod busnes.

Yn ogystal, gall digolledwr wneud taliad interim gwirfoddol ar unrhyw adeg ar ôl i'ch hawliad gael ei gofnodi. Gall y taliad hwn naill ai fod:

- yn daliad interim am eitem benodol
- yn daliad interim cyffredinol a fydd yn cael ei wrthbwysu yn erbyn unrhyw setliad terfynol o'ch hawliad. Sylwer nad yw taliad interim cyffredinol yn gyfaddefiad o atebolrwydd ac ni ellir dweud wrth y llys amdano tan ddiwedd yr achos

Pan fydd taliad interim a wneir yn ymwneud ag eitem benodol, naill ai yn unol â chais gennych chi neu a wnaed yn wirfoddol gan y digolledwr, bydd yr eitem honno'n cael ei thrin fel un sydd wedi'i thalu'n llawn ac yn cael ei thynnu o'ch hawliad.

Os nad yw'r digolledwr yn ymateb i'ch cais am daliad interim neu os nad yw'n talu swm y cytunwyd arno, efallai y byddwch yn dewis mynd i'r llys.

Dewiswch Mynd i'r llys a chwblhau pecyn llys – bydd y porth yn eich cynorthwyo yn y broses hon.

6.4 Cam 3: Meddygol

Mae'r traciwr ar eich sgrin 'Trosolwg o'r hawliad' yn dangos eich bod ar Gam 3: Meddygol. Bydd y sgrin 'Trosolwg o'r hawliad' yn egluro'r hyn sydd angen i chi ei wneud ar bob cam.


Yn yr adran hon, byddwch yn cael eich tywys trwy:

- y dewisiadau porth wrth symud ymlaen at adroddiadau
- meddygol
- opsiynau talu pellach
- beth sy'n digwydd os na allwch ddefnyddio'r porth neu os oes gennych anghenion hygyrchedd

6.4.1 Dewisiadau porth wrth symud ymlaen i adroddiadau meddygol

Mae'r siart canlynol yn disgrifio'r broses adroddiad meddygol ar gyfer hawliwr heb gynrychiolaeth (hynny yw, rydych chi'n mynd drwy'r porth eich hun).

Ni fydd unrhyw gynrychiolydd hawliwr (a elwir yn Ddirprwy Ddefnyddiwr) yn dilyn y broses hon a bydd yn rhaid iddynt gael adroddiad meddygol ar ran eu cleient y tu allan i'r system borth, gan ddefnyddio MedCo.



6.4.1.1 Detholiad o ddewisiadau meddygol

Os oes gennych anaf atchwip a bod y digolledwr yn cyfaddef atebolrwydd yn llawn neu'n rhannol, neu'n cyfaddef bai (yn llawn neu'n rhannol) ond yn dadlau bod y ddamwain wedi achosi unrhyw anaf i chi, bydd angen i chi ddewis 'Ewch ymlaen at apwyntiad meddygol'. (Gweler isod am opsiynau pellach os oes gennych anaf nad yw'n atchwip.)

Byddwch wedyn yn mynd i sgrin o'r enw 'Gofyn am apwyntiad meddygol' lle byddwch yn ateb:

- lle hoffech i'r archwiliad meddygol ddigwydd
- o ble byddwch yn teithio o ar gyfer eich apwyntiad

Yna byddwch yn mynd i sgrin o'r enw 'Dewiswch eich darparwr adroddiad meddygol' lle byddwch yn ateb:

- pa fath o ddarparwr adroddiad meddygol rydych chi ei eisiau (er enghraifft Arbenigwr Meddygol Uniongyrchol neu Sefydliad Adrodd Meddygol – gweler isod)
- pa mor bell ydych chi'n fodlon teithio ar gyfer eich apwyntiad
- a hoffech i'r arbenigwr meddygol achrededig fod yn rhyw penodol
- unrhyw ofynion eraill ar gyfer yr apwyntiad (megis mynediad cadair olwyn, cyfieithydd iaith)

Dyma'r ddau fath o ddarparwr adroddiad meddygol y gallwch eu dewis:

- Arbenigwr Meddygol Uniongyrchol (DME): yn arbenigwr meddygol achrededig a fydd yn trefnu eich apwyntiad, cyfathrebu'n uniongyrchol â chi wrth ymdrin ag unrhyw ymholiadau, eich archwilio a llunio adroddiad meddygol.
- Mae Sefydliad Adrodd Meddygol (MRO): yn sefydliad annibynnol a fydd yn penodi arbenigwr meddygol achrededig i'ch archwilio a llunio adroddiad meddygol ar eich rhan. Bydd gan yr MRO banel o arbenigwyr meddygol achrededig y gallant drefnu apwyntiad addas ohonynt. Bydd yr MRO yn eich helpu i drefnu eich apwyntiad a/neu ddelio ag unrhyw ymholiadau am yr adroddiad meddygol.

Yna bydd sgrin gadarnhau yn dangos eich dewisiadau meddygol.

- Os yw'r arbenigwr meddygol achrededig yn dymuno adolygu eich cofnodion meddygol presennol, byddant yn cysylltu â chi. Nid yw hyn fel arfer yn ofynnol

6.4.1.2 Hawliadau anafiadau nad ydynt yn ymwneud ag atchwip

Pan fydd gennych anaf atchwip, mae'r gyfraith yn gofyn i chi gael adroddiad meddygol. Gydag anaf nad yw'n ymwneud ag atchwip, mae'n bosibl ceisio datrys y rhan honno o'ch hawliad heb adroddiad meddygol, ond efallai na fydd y digolledwr yn cytuno i hyn.

Nid yw'r porth yn ymdrin â chynigion a wnaed heb adroddiad meddygol, ond efallai y byddwch yn dal i gysylltu â'r digolledwr drwy'r gwasanaeth negeseuon porth a gofyn iddynt am gynnig am yr anafiadau hyn. Efallai y bydd y digolledwr yn cytuno i wneud cynnig i chi heb archwiliad meddygol, neu efallai y bydd yn dweud ei fod am weld adroddiad meddygol cyn ei fod yn barod i wneud hynny.

Os byddai'n well gennych gael adroddiad meddygol, yna mae'n rhaid i chi ddilyn yr un broses ag ar gyfer hawliadau atchwip (wedi'u hamlinellu yn y diagram uchod).

Os byddwch yn penderfynu dechrau achos llys i adennill iawndal am eich anaf neu golledion yn sgil yr anafiadau hynny, bydd angen adroddiad meddygol os ydych yn bwriadu dibynnu ar dystiolaeth feddygol. Mae hyn yn wir hyd yn oed os nad oes elfen anafiadau atchwip i'ch hawliad.

6.4.1.3 Adroddiad meddygol cyntaf trwy MedCo

Os ydych yn byw yng Nghymru a Lloegr, mae'n rhaid cael archwiliad meddygol ac adroddiad meddygol cyntaf trwy MedCo. Gellir gwneud hyn trwy'r porth Hawlio Anafiadau Swyddogol. Dyma'r system a ddefnyddir i ddod o hyd i DMEs ac MROs, a fydd yn archwilio'ch anafiadau ac yn darparu adroddiadau meddygol (gw. www.medco.org.uk).

- Mae MedCo yn cael ei redeg gan fwrdd cyfarwyddwyr anweithredol gyda chynrychiolaeth traws-ddiwydiannol a chadeirydd annibynnol
- Rhaid defnyddio MedCo os ydych am fod yn gymwys i wneud hawliad ar y porth

Os ydych chi'n byw y tu allan i Gymru a Lloegr, gallech gael eich archwiliad meddygol drwy MedCo cyn belled â'ch bod yn dewis chwilio o gyfeiriad yng Nghymru a Lloegr. Er enghraifft, os ydych yn byw yn Ffrainc ond yn gweithio yng Nghymru neu Loegr, dylech chwilio gan ddefnyddio eich cyfeiriad gwaith yng Nghymru neu Loegr.

Os nad yw'n bosibl cael eich archwilio yng Nghymru na Lloegr (er enghraifft rydych yn byw yn Ffrainc ac wedi'ch anafu tra ar ymweliad â Chymru neu Loegr), caniateir i chi ddod o hyd i'ch arbenigwr meddygol eich hun ac uwchlwytho eich adroddiad meddygol eich hun (**gweler manylion pellach ar 6.4.2.2**).

6.4.1.4 Archwiliad meddygol a chyfathrebu.

Pan fyddwch wedi dewis eich darparwr adroddiad meddygol, bydd y porth yn anfon cyfarwyddiadau atynt. Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol yr ydych chi a'r diffynnydd wedi'i nodi ar y porth (er enghraifft, atebion ynghylch amgylchiadau eithriadol).

Ar ôl hyn, bydd unrhyw gyfathrebu rhyngoch chi a darparwr yr adroddiad meddygol yn cael ei wneud y tu allan i'r porth (hynny yw, rydych chi'n dewis eich darparwr adroddiadau meddygol drwy'r porth, ond maen nhw'n cyfathrebu'n uniongyrchol â chi).

Yna bydd y darparwr adroddiadau meddygol yn:

- trefnu eich apwyntiad meddygol
- anfon unrhyw anfoneb ar gyfer yr adroddiad meddygol cyntaf yn uniongyrchol at y digolledwr

Os yw eich amgylchiadau wedi newid ers i chi roi eich atebion cychwynnol ar y porth, rhaid i chi ddweud wrth yr arbenigwr meddygol achrededig amdano yn eich archwiliad meddygol.

6.4.2 Adroddiadau meddygol

Yn dilyn archwiliad meddygol, bydd y darparwr adroddiad meddygol yn uwchlwytho eich adroddiad meddygol i'r porth. Byddwch yn gallu lawrlwytho'r adroddiad hwn trwy ddewis 'Adolygu adroddiad meddygol' ar eich sgrin 'Trosolwg o'r hawliad'. Ar hyn o bryd ni fydd y digolledwr yn gweld yr adroddiad.

Y cwestiwn y byddwch yn ei ateb wedyn yw:

Ydych chi'n credu bod y ffeithiau yn yr adroddiad meddygol yn gyflawn ac yn gywir?

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi wirio am unrhyw wallau fel dyddiad geni anghywir, disgrifiad anghywir o'r ddamwain neu unrhyw fethiant i gynnwys rhywbeth y gwnaethoch ddweud wrth yr arbenigwr meddygol achrededig. Mae'n arbennig o bwysig os yw'ch anaf atchwip yn eithriadol o ddifrifol, neu os yw'ch amgylchiadau wedi cynyddu difrifoldeb eich poen, dioddefaint a cholli amwynder a achosir gan eich anaf atchwip, bod y ffeithiau ategol yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn eich adroddiad meddygol.

- Os credwch fod yr adroddiad meddygol yn gywir ac nad oes unrhyw wallau ffeithiol, byddwch yn dewis 'Ydw', cyn penderfynu sut rydych chi am symud ymlaen
- Os ydych yn credu nad yw'r adroddiad meddygol yn gywir, bydd angen i chi nodi unrhyw resymau yn y blwch a ddarperir. Yna caiff hwn ei anfon yn ôl at ddarparwr yr adroddiad meddygol a fydd yn

diwygio'r adroddiad os yw'n briodol

Os oes angen, gallwch ofyn am wneud gwelliannau i unrhyw wallau ffeithiol, ond nid i unrhyw farn feddygol. Er enghraifft, nid yw barn yr arbenigwr meddygol am ba hyd y bydd yn ei gymryd i chi wella o'ch anaf (cyfnod prognosis) yn gamgymeriad ffeithiol ac ni allwch ofyn am welliant.

Ni fydd eich adroddiad meddygol yn cael ei rannu gyda'r digolledwr nes i chi gadarnhau y dylai fod. Fodd bynnag, bydd angen yr adroddiad meddygol a dogfennau eraill ar y digolledwr i wneud cynnig i chi, felly bydd yn rhaid i chi ei rannu pan fyddwch yn barod/bodlon ag ef.

Os argymhellir unrhyw driniaeth yn eich adroddiad, efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â'r digolledwr.

Os yw'r adroddiad meddygol yn nodi eich bod yn debygol o ddioddef o'ch anafiadau am fwy na 24 mis o ddyddiad y ddamwain, efallai y bydd gwerth eich hawliad yn fwy na'r terfyn trac hawliadau bychain ac efallai y gallwch adennill cost cyngor arbenigwr ar wahân. Gallwch dynnu'ch hawliad yn ôl o'r broses trwy ddefnyddio'r opsiwn 'Tynnu'r hawliad hwn yn ôl' o dan 'Fy nghamau gweithredu eraill' ar y sgrin 'Trosolwg o'r hawliad'. Fodd bynnag, dylech ofyn am gyngor cyn cymryd y cam hwn.

6.4.2.1 Herio cywirdeb ffeithiol

Dim ond un cyfle sydd gennych i herio'r adroddiad meddygol cyntaf. Os credwch ei fod yn anghyflawn a/neu'n anghywir a bod yr arbenigwr meddygol wedi gwrthod gwneud unrhyw ddiwygiadau, efallai y byddwch yn anfon manylion eich her ac ymateb yr arbenigwr pan fyddwch yn anfon yr adroddiad meddygol at y digolledwr. Rhaid i chi hefyd roi gwybod i'r digolledwr y byddwch yn dadlau bod yr adroddiad meddygol yn anghyflawn a/neu'n anghywir.

6.4.2.2 Adroddiadau meddygol pellach

Gan amlaf, dim ond un adroddiad meddygol fydd ei angen. Gall fod achlysuron, fodd bynnag, pan fydd modd cyfiawnhau adroddiad meddygol pellach. Y rheswm hwn am hyn fydd os:

- caiff ei argymhell yn adroddiad yr arbenigwr cyntaf
- mae'r adroddiad meddygol cyntaf yn argymhell bod angen amser pellach cyn gallu penderfynu ar brognosis o'ch anafiadau
- rydych yn cael triniaeth barhaus; a/neu
- nad ydych wedi gwella yn ôl y disgwyl yn seiliedig ar y prognosis gwreiddiol

Rhaid i chi ddewis un o'r 4 cyfiawnhad os gofynnwch i'r digolledwr am adroddiad meddygol pellach. Os na fyddwch yn dewis un o'r rhesymau hyn, ni fyddwch yn gallu dibynnu ar yr adroddiad meddygol i ddangos tystiolaeth o'ch hawliad neu adennill unrhyw ffi adroddiad meddygol.

Yna gofynnir i chi ddarparu'r digolledwr â gwybodaeth bellach i gefnogi eich hawliad. Gallwch ddangos eich adroddiad cyntaf iddyn nhw, rhannu darnau ohono neu ddarparu'r wybodaeth eich hun.

Bydd angen i chi hefyd ei gwneud yn glir i'r digolledwr pa fath pellach o arbenigwr rydych yn dymuno iddynt gyfarwyddo ar eich rhan a pham.

Yna bydd yr hawliad yn cael ei anfon at y digolledwr a fydd naill ai'n cydnabod eich hawliad neu'n gwrthwynebu hynny. Ar ôl cydnabod yr hawliad, mae gan y digolledwr 10 diwrnod i anfon y cyfarwyddiadau. Bydd y rhain ar ffurf safonol, yn cael eu huwchlwytho i'r porth.

Yna bydd yr MRO neu arbenigwr meddygol yn cysylltu â chi y tu allan i'r porth, i drefnu eich apwyntiad.

Anfonir yr adroddiad pellach hwn yn uniongyrchol atoch a rhaid i chi wirio'r cynnwys yn ofalus cyn i chi ei uwchlwytho.

Os yw'n well gennych, gallwch gael eich adroddiad meddygol annibynnol eich hun a pheidio â chynnwys y digolledwr. Os bydd y digolledwr yn gwrthynebu eich hawliad, gallwch ddewis cael eich adroddiad eich hun ond sylwch os na ellir cyfiawnhau'r adroddiad, efallai na fyddwch yn gallu adennil y gost.

Os yw'r adroddiad meddygol pellach yn nodi eich bod yn debygol o ddioddef o'ch anafiadau am fwy na 24 mis o ddyddiad y ddamwain, gall gwerth eich hawliad fod yn fwy na'r terfyn trac hawliadau bach ac efallai y gallwch adennill cost cyngor arbenigol ar wahân. Gallwch dynnu eich hawliad yn ôl o'r broses borth, gallwch wneud hynny drwy ddefnyddio'r opsiwn 'Tynnu'r hawliad hwn yn ôl' o dan 'Fy nghamau gweithredu eraill' ar y sgrin 'Trosolwg o'r hawliad'. Fodd bynnag, dylech ofyn am gyngor cyn cymryd y cam hwn.

6.4.2.3 Talu ffi adroddiad meddygol pellach

Os yw'r digolledwr yn trefnu'r adroddiad meddygol pellach, anfonir unrhyw anfoneb yn uniongyrchol at y digolledwr am daliad, cyn belled ag y bo un o'r 4 rheswm yn **6.4.2.2** yn cael ei roi.

Os byddai'n well gennych gael eich adroddiad meddygol eich hun ac nad yw'n cynnwys y digolledwr, ni fydd y digolledwr yn talu'r ffi yn uniongyrchol a bydd angen i chi ei hawlio'n ôl ar ddiwedd y broses ochr yn ochr ag unrhyw ffioedd eraill.

6.4.2.4 Adroddiadau meddygol y tu allan i Gymru a Lloegr

Os ydych yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr, efallai y cewch adroddiad meddygol cyntaf fel a ganlyn:

- am atchwip: gallwch gael eich adroddiad meddygol gan berson sy'n cael ei gydnabod gan y wlad y maent yn ymarfer ynddi fel arbenigwr meddygol gyda'r cymwysterau gofynnol ar gyfer diagnosis a phrognosis anaf atchwip
- ar gyfer dim atchwip: gallwch gael eich adroddiad meddygol gan berson sy'n cael ei gydnabod gan y wlad y mae'n ymarfer ynddi fel arbenigwr meddygol

Mae angen i'r arbenigwr meddygol fod yn annibynnol ac yn briodol (er enghraifft ni allwch anfon adroddiad meddygol am anaf atchwip gan gastroenterolegydd).

Os ydych chi'n uwchlwytho'r adroddiad meddygol eich hun (oherwydd ei fod yn dod o'r tu allan i Gymru a Lloegr neu mae'n ail adroddiad), mae'n rhaid i chi wirio bod y cynnwys yn ffeithiol gywir cyn i chi ei uwchlwytho.

6.5 Cam 4: Cynnig

Mae'r traciwr ar eich sgrin 'Trosolwg o'r hawliad' yn dangos eich bod ar Gam 4: Cynnig. Bydd y sgrin 'Trosolwg o hawliad' yn egluro'r hyn sydd angen i chi ei wneud ar bob cam.

Yn yr adran hon, cewch eich tywys drwy:

- yr hyn y mae angen i chi ei ddarparu i'r digolledwr wneud cynnig i chi
- sut mae'r digolledwr yn gwneud cynnig
- y broses cynnig porth
- anghydfod ynghylch hawliad anaf
- tynnu cynigion yn ôl
- derbyn cynigion a wrthodwyd yn flaenorol
- beth sy'n digwydd os na allwch ddefnyddio'r porth neu os oes gennych anghenion hygrychedd

6.5.1. Yr hyn y mae angen i chi ei ddarparu i'r digolledwr wneud cynnig i chi

6.5.1.1 Derbyn dogfennau perthnasol

Ar y cam cynnig, rhaid i chi uwchlwytho unrhyw ddogfennau pellach i gefnogi eich hawliad am iawndal (colledion) protocol arall. Rhaid i chi hefyd sicrhau bod yr holl golledion protocol wedi'u cynnwys gan na fydd gennych gyfle i ychwanegu mwy o golledion ar ôl y pwynt hwn (ac eithrio colledion NVC os byddwch yn penderfynu mynd i'r llys yn ddiweddarach).

Mae dogfennau i'w huwchlwytho yn cynnwys:

- unrhyw adroddiad meddygol cost sefydlog
- unrhyw ddogfen her ac ymateb
- unrhyw adroddiadau meddygol eraill yr ydych yn dibynnu arnynt i gefnogi eich hawliad
- manylion i gefnogi unrhyw hawliad am iawndal protocol arall (Gweler Adran 5: Yr hyn y gallwch wneud hawliad amdano)
- unrhyw ffotograffau o'ch anafiadau

- manylion unrhyw ffioedd gan gynnwys anfonebau ar gyfer:
 - adroddiadau meddygol a anfonwyd gennych i'r digolledwr nad ydynt eisoes wedi talu amdanynt
 - y defnydd o arbenigwyr eraill
 - cofnodion meddygol
 - adroddiadau'r heddlu
 - unrhyw ffioedd llys
 - unrhyw beth arall

Bydd angen i chi hefyd arwyddo Datganiad Gwirionedd yn cadarnhau eich colledion. Yna, bydd y digolledwr yn gallu gwneud cynnig.

6.5.2 Sut mae'r digolledwr yn gwneud cynnig

Bydd y digolledwr yn nodi swm yn erbyn pob eitem o ddifrod (colled). Bydd y swm hwn yn cynrychioli ei werth llawn.

Bydd gan bob eitem o golled yr ydych wedi hysbysu'r digolledwr ohono werth a ddangosir yn ei erbyn yn y sgrin gynnis.

Rhaid i'r digolledwr hefyd wneud cynnig am anaf yn seiliedig ar yr adroddiad meddygol. Os yw'r anaf ar gyfer atchwip bydd y sgrin yn dangos swm tariff a bydd cynnig anaf di-dariff hefyd os yw'r berthnasol (h.y. lle mae gennych anaf heb atchwip).

Bydd y digolledwr yn dangos eu bod yn credu bod yr adroddiad meddygol yn dangos bod anaf atchwip. Os ydyn nhw'n dweud ei fod yn gwneud hynny, yna bydd angen i'r digolledwr nodi pa dariff maen nhw wedi'i gymhwyso. Mae 2 dariff, un ar gyfer anaf/anafiadau atchwip ac un arall am anaf/anafiadau atchwip ynghyd ag anaf bychan seicolegol.

Lle mae'r digolledwr wedi nodi nad ydynt yn credu bod anaf atchwip yna bydd y swm tariff ar y sgrin gynnis yn dangos fel £0.00.

Yna gellir gwneud didyniadau yn erbyn pob gwerth os yw'n berthnasol (**gweler diagram ar y dudalen nesaf**) ac fel a ganlyn:

- i adlewyrchu eich cyfran o unrhyw atebolrwydd am y ddamwain
- os, ym marn yr arbenigwr meddygol, gwaethygydd eich anafiadau oherwydd nad oeddech yn gwisgo gwregys diogelwch
- os ydych chi, o ganlyniad i'r ddamwain, wedi derbyn budd-daliadau gwladol gan yr Uned Adfer lawndal (CRU). Mewn rhai amgylchiadau mae gan y digolledwr hawl i leihau'r swm a gynigir yn erbyn rhai o'r eitemau. Os yw mwy nag un eitem wedi'i lleihau fel hyn, mae cyfanswm yr holl didyniadau yn cael ei nodi gan y digolledwr yn y blwch 'Didyniad – CRU'. I gael rhagor o wybodaeth am ddidyniadau CRU, ewch i wefan y llywodraeth (**www.gov.uk/government/collections/cru**)
- os ydych eisoes wedi derbyn taliad interim am unrhyw eitemau o ddifrod sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr o golledion ac sy'n dal i gael ei restru yma, bydd y swm hwnnw'n cael ei ddidynnu o'r swm llawn. Bydd y digolledwr yn nodi'r ffigur interim yn y blwch 'Didyniad – taliad interim'.

Bydd unrhyw didyniadau o werth llawn eich iawndal yn cael eu gwneud yn y drefn a nodir uchod. Felly:

- 1) bydd y didyniad i adlewyrchu eich cyfran o unrhyw atebolrwydd ar gyfer y ddamwain yn cael ei wneud yn gyntaf
- 2) yna bydd unrhyw didyniadau am beidio â gwisgo gwregys diogelwch yn cael ei gymhwyso
- 3) yna bydd didyniadau eraill yn cael eu cymhwyso yn erbyn y swm sy'n weddill

6.5.2.1 Didyniadau

Weithiau, bydd y digolledwr yn gwneud didyniadau o'ch cynnis. Mae'n rhaid i rai didyniadau gael eu gwneud yn ôl y gyfraith a bydd rhai i'w gwneud gyda phenderfyniadau am atebolrwydd am y ddamwain:

- mae didyniadau y mae'n rhaid eu gwneud yn ôl y gyfraith yn cynnwys lle mae angen i'r digolledwr ad-dalu elfennau penodol o'r hawliad i CRU (gweler isod) neu lle maent eisoes wedi gwneud taliad interim
- gellir gwneud didyniadau ar gyfer atebolrwydd os ydych wedi cadarnhau nad oeddech yn gwisgo gwregys diogelwch adeg y ddamwain neu oherwydd nad yw'r digolledwr wedi derbyn atebolrwydd yn llawn

Bydd y digolledwr yn esbonio pa symiau sydd wedi'u didynnu a pham.

6.5.2.2 Uned Adfer lawndal (CRU)

Os ydych wedi derbyn budd-daliadau nawdd cymdeithasol yn dilyn eich damwain a'ch bod wedyn yn derbyn iawndal, efallai y bydd angen ad-dalu'r budd-daliadau i'r Adran Gwaith a Phensiynau o dan gyfraith nawdd cymdeithasol.

Bydd angen i'r digolledwr gael tystysgrif CRU sy'n dweud wrthynt am unrhyw didyniadau y mae'n rhaid eu gwneud. Bydd y digolledwr yn ei gwneud hi'n glir i chi os yw didyniadau'n cael eu gwneud.


Dyma gyfrifiad sampl lle mae'r cynnig o £4,000 yn cael ei ostwng i daliad o £2,112.50 oherwydd y didyniadau fel y nodir:

Cyfanswm y cynnig: £4,000			
Didyniadau	Anaf: £1,000	Iawndal protocol: £3,000	
		Cysylltiedig ag anaf: £1,500	Cysylltiedig ag eiddo £1,500
25% Didyniad atebolrwydd	£750	£1,125	£1,125
10% Dim gwregys diogelwch	£675	£1,012.50	£1,125 (dim newid)
CRU: o £500	£675 (dim newid)	£512.50	£1,125 (dim newid)
Dros dro ar gyfer polisi gormodedd o £200	£675 (dim newid)	£512.50 (dim newid)	£925
Cyfanswm y taliad = £2112.50 (h.y. £675 + £512.50 + £925)			

Yn yr enghraifft hon, os ydych yn derbyn y cynnig hwn byddwch yn derbyn £2,112.50.

6.5.3 Proses cynnig y porth

Amlinellir y broses cynnig a gwrthgynnig yn y siart a ganlyn. Mae hyn hefyd yn amlinellu'r pwyntiau lle gallwch chi gau'r broses a mynd i'r llys.



6.5.3.1 Cynnig digolledwr

Ar ôl iddynt dderbyn yr holl ddogfennau yr ydych wedi eu huwchlwytho i gefnogi eich colledion, mae gan y digolledwr 20 diwrnod busnes i wneud cynnig i chi.

Unwaith y byddwch yn mewngofnodi i'r porth byddwch wedyn yn gallu gweld cynnig y digolledwr, os yw wedi'i wneud, trwy ddewis 'Gweld cynnig'. Mae swm y cynnig a'r crynodeb yn cael eu harddangos ar y sgrin 'Adolygu'r cynnig'. Byddwch yn gweld beth sydd wedi'i gynnig yn erbyn pob colled a hawliwyd ac am eich anaf, ynghyd ag unrhyw didyniadau a wnaed. Yno, byddwch chi'n gallu penderfynu:

- derbyn y cynnig (derbyn cynnig)
- anghytuno â'r cynnig (anghytuno â'r cynnig)
- aros am y prognosis ar gyfer eich anaf (aros am y prognosis)

Os ydych yn derbyn y cynnig, bydd eich hawliad yn cael ei gau ac ni ellir ei ailagor. Bydd y digolledwr yn cysylltu â chi i drefnu taliad.

Os ydych yn anghytuno â'r cynnig, bydd hyn yn mynd i'r sgrin 'Cynnig heb ei dderbyn'. Yno mae'n rhaid i chi gadarnhau pa ran rydych chi'n anghytuno ag ef. Fe fyddwch wedyn naill ai:

- yn dychwelyd yr hawliad i'r digolledwr a all ddiweddu eu cynnig (bydd yn bosibl uwchlwytho tystiolaeth ychwanegol os oes angen)

- gwneud gwrthgynnig (dim ond 3 gwrthgynnig y gellir eu gwneud). Os yw cynnig y digolledwr yn is na'r disgwyl oherwydd nad ydych wedi rhoi digon o dystiolaeth, gallwch uwchlwytho unrhyw dystiolaeth berthnasol (fel derbynebaw) er mwyn dangos y dylid gwneud cynnig uwch
- mynd i'r llys (hynny yw, dechrau achos llys)

Cofiwch: gall y digolledwr wneud hyd at 3 chynnig i chi drwy'r porth a gallwch wneud hyd at 3 gwrthgynnig. Dylai pob cynnig y mae'r digolledwr yn ei wneud fod yn uwch na'r cynnig blaenorol a dylai pob cynnig a wneir gennych fod yn is na'r cynnig blaenorol. Fodd bynnag, gall y digolledwr hefyd gadw at eu cynnig gwreiddiol; does dim rhaid iddyn nhw wneud cynnig uwch bob tro.

Ar unrhyw adeg ar ôl y cynnig cyntaf, gallwch ddewis yr opsiwn mynd i'r llys, ond mae'r Protocol Cyn Gweithredu yn annog trafod rhwng y partion cyn i'r cam hwn gael ei gymryd.

Os ydych yn bwriadu gwrthod cynnig y digolledwr a gwneud gwrthgynnig eich hun, dylech ystyried gwerth eich gwrthgynnig cyn i chi wrthod. Os nad ydych yn cytuno â'r digolledwr ynghylch a oes anaf atchwip, gallwch nodi hyn ar y porth. Os ydych yn dweud nad oes anaf atchwip yna bydd eich gwrthgynnig ar swm tariff yn dangos fel £0.00. Os yw'r digolledwr wedi dweud nad oes anaf atchwip a'ch bod yn credu bod yna, yna gofynnir i chi ddewis y swm tariff priodol.

Unwaith y daw cytundeb ar y pwynt hwn, ni fydd gennych gyfle pellach i herio a oes anaf atchwip yn y porth. Gallwch barhau i anghytuno pa dariff ddylai fod yn berthnasol (ond dim ond os yw'r digolledwr wedi nodi eu bod yn credu bod y tariff atchwip is yn berthnasol; unwaith y bydd yr atchwip uwch a'r tariff mân anafiadau seicolegol yn cael ei ddewis gan y digolledwr ni ellir newid hyn).

Ar ôl dod i benderfyniad bod anaf atchwip a pha dariff sy'n berthnasol (e.e. anaf atchwip yn unig neu atchwip a mân anaf seicolegol), yr unig her y gellir ei gwneud yw hyd yr anaf a ddewiswyd i gyfrifo swm y tariff

Os byddwch yn dewis 'Aros am brognosis', ni fydd eich hawliad yn symud ymlaen hyd nes y byddwch naill ai'n cadarnhau yr hoffech symud ymlaen i gynnig (er enghraifft oherwydd eich bod wedi gwella o'ch anaf) neu'n cadarnhau nad ydych wedi gwella o'ch anaf neu anafiadau erbyn diwedd y cyfnod prognosis ac yr hoffech i'r digolledwr drefnu adroddiad meddygol pellach.

Mae 'Aros am brognosis' yn cwmpasu'r cyfnod y mae'r arbenigwr meddygol yn credu y bydd yn ei gymryd i chi wella o'ch anaf neu anafiadau, fel y nodir yn yr adroddiad meddygol.

Os byddwch yn aros am y prognosis ac yn gwella fel y rhagwelwyd yn yr adroddiad ac nad oes unrhyw golledion pellach wedi'u hachosi, gallwch wedyn ymateb i unrhyw gynnig sydd ar gael a wnaed gan y digolledwr a pharhau drwy'r broses gynnig fel y nodir uchod.

Os byddwch yn mynd i golledion pellach yn ystod y cyfnod aros am brognosis, neu os nad ydych yn gwella fel y rhagwelwyd ac mae angen adroddiad meddygol pellach bydd hyn yn arwain at ddechrau'r broses gynnig eto. Bydd angen i chi ddiweddarau'r wybodaeth drwy uwchlwytho'ch colledion pellach a'ch rhestr o golledion ac unrhyw dystiolaeth feddygol newydd a bydd y digolledwr yn gwneud cynnig cyntaf newydd yn seiliedig ar y wybodaeth wedi'i diweddarau.

6.5.3.2 Ffioedd

Ar yr un pryd ag y bydd yn gwneud cynnig ar eich colledion, bydd y digolledwr hefyd yn gwneud cynnig am unrhyw ffioedd. Fodd bynnag, bydd angen i chi gytuno ar setlo'ch colledion h.y., anaf personol ac iawndal arall sy'n gysylltiedig â damweiniau (**gweler 6.5.3.1**) cyn dechrau unrhyw negodi ynglŷn â'r cynnig ar ffioedd.

Unwaith y byddwch yn symud ymlaen i ystyried y cynnig ffioedd, gallwch wneud gwrthgynnig i'r digolledwr, neu ddarparu manylion am ffioedd pellach a gafwyd ers i'r Rhestr o Golledion gael ei darparu, y byddant naill ai'n eu derbyn neu'n eu gwrthod. Os ydynt yn gwrthod eich gwrthgynnig, gallwch ddechrau paratoi achos llys ar wahân ar gyfer adfer eich ffioedd, os dymunwch.

6.5.3.3 Priso unrhyw gynnig

Bydd angen i chi adolygu a phenderfynu a yw gwerth unrhyw gynnig yn dderbyniol. **Ewch yn ôl i Adran 4.4** ac adolygu'r manylion a roddwyd ar y prisiad.

6.5.4 Anghydfod dros hawliad anaf

Efallai bod y digolledwr wedi cyfaddef bai, ond heb dderbyn bod y ddamwain wedi achosi eich anaf.

Os yw hyn yn wir, cyn belled â'ch bod wedi rhoi'r wybodaeth ofynnol, rhaid iddynt gysylltu â chi o fewn 20 diwrnod busnes gan ddweud eu bod yn anghytuno â'r elfen anafiadau o'ch hawliad, a'r rhesymau pam.

Ar yr un pryd, gall y digolledwr wneud cynnig terfynol i setlo iawndal protocol arall (er enghraifft iawndal sy'n gysylltiedig â'ch anaf personol, ond nid yr anaf personol ei hun) ac i eiddo a ddifrodwyd oherwydd y ddamwain (Gweler Adran 5). Mae hyn i gyd yn cael ei gyfathrebu drwy'r porth.

Eich opsiynau mewn anghydfod o'r fath yw:

- i dderbyn na fyddwch yn cael iawndal am yr anaf ei hun, ond yn cymryd cynnig y digolledwr am iawndal protocol arall. Hwn fyddai setliad terfynol eich hawliad
- i ollwng yr hawliad anaf, ond yn anghytuno â'r swm a gynigir ar gyfer colledion eraill
- i barhau gyda'ch hawliad am anaf. Mae hyn yn golygu bod yr hawliad yn destun anghydfod ac yna ni fydd y broses borth yn berthnasol mwyach – efallai y byddwch am gymryd cyngor gan fod achosion llys yn debygol o fod y cam nesaf
- Os na fydd y digolledwr yn cysylltu â chi o fewn 20 diwrnod busnes yn cadarnhau'r anghydfod, neu os bydd yn gwneud cynnig i chi sy'n cynnwys unrhyw swm am iawndal am anaf, ystyriwch ei fod yn cyfaddef atebolrwydd ac ni all ddadlau mwyach nad achoswyd yr anaf gan y ddamwain.

6.5.5 Tynnu cynigion yn ôl

Cofiwch: y gallwch ddefnyddio'r porth i drafod cynigion.

Gallwch chi a'r digolledwr wneud hyd at 3 cynnig yr un.

Ar ôl i gynnig gael ei wneud, caiff ei adael yn 'agored' ar y porth, a gall pob ochr ddewis derbyn, gwrthod neu fynd yn ôl gyda chynnig pellach (hyd at uchafswm o 3 gwaith). Fodd bynnag, os nad oes ymateb i gynnig wedi'i wneud o fewn 10 diwrnod busnes, gall y naill ochr neu'r llall dynnu eu cynnig yn ôl os ydynt yn dymuno: gallwch ddefnyddio 'Tynnu'r cynnig yn ôl' i wneud hyn.

Nodwch: os byddwch yn tynnu'n ôl cyn i'r cynnig gael ei wrthod nid yw'n cyfrif fel un o'ch 3 chynnig.

Dim ond cyn i'r Ffurflen Brisio Llys gael ei chreu y gall unrhyw gynnig yn ôl trwy'r porth ddigwydd (**gweler 6.6.3**). Os yw'r broses wedi symud y tu hwnt i'r cam hwn, dim ond drwy rybudd ysgrifenedig y gellir tynnu'n ôl, gan ddefnyddio'r cyfleuster neges ar y porth neu drwy e-bost/llythyr at y parti arall.

6.5.5.1 Beth sy'n digwydd nesaf

Dyma oblygiadau tynnu cynnig yn ôl:

- os tynnir cynnig yn ôl ni ellir ei dderbyn mwyach
- mae'r parti sy'n tynnu'r cynnig yn ôl yn cael ei adael heb unrhyw gynnig ar y porth
- gall y parti sy'n tynnu'r cynnig yn ôl ei wneud cynnig newydd yn ei le

- os caiff cynnig ei dynnu'n ôl a chynnig newydd yn cael ei wneud cyn i'r parti arall wneud eu cynnig nesaf, mae gan y cynnig newydd yr un rhif â'r cynnig a dynnwyd yn ôl (er enghraifft, os caiff yr ail gynnig ei dynnu'n ôl a'i ddisodli, bydd y cynnig newydd yn dal i fod yr ail)
- os caiff cynnig yn ei dynnu'n ôl ar ôl i'r parti arall wneud eu cynnig nesaf, y cynnig newydd fydd eu cynnig nesaf
- os yw'r digolledwr yn tynnu eu cynnig yn ôl ar ôl i chi wneud eich trydydd cynnig a'ch cynnig terfynol, ni all y digolledwr wneud cynnig newydd ar y porth. Un o effeithiau'r digolledwr sy'n tynnu cynnig yn ôl a pheidio â rhoi cynnig newydd yn ei le (neu beidio â gallu gwneud hynny) yw dileu unrhyw un o'u sylwadau ar golledion fel nad ydynt yn dangos ar y dogfennau ar gyfer y llys. Ni fydd y sylwadau hyn yn weladwy i'r llys.

Gallwch barhau i dderbyn y cynnig ar ôl i'r camau hyn gael eu cymryd drwy anfon hysbysiad ysgrifenedig i'r parti arall gan ddefnyddio'r cyfleuster neges ar y porth neu drwy e-bost/llythyr.

6.5.6 Derbyn cynigion a wrthodwyd yn flaenorol

Efallai y byddwch yn gwrthod cynnig y mae'r digolledwr wedi'i wneud ond yna penderfynwch yn ddiweddarach eich bod am dderbyn y cynnig hwnnw. Mae'r un peth yn wir am y digolledwr sy'n penderfynu y gallai fod eisiau derbyn eich cynnig hyd yn oed os yw wedi ei wrthod yn flaenorol. Os nad yw'r cynnig wedi'i dynnu'n ôl, mae hyn yn bosibl drwy'r porth, hyd nes y bydd Ffurflen Brisio'r Llys yn cael ei chreu.

6.6 Cam pump: Cau'r broses.

Mae'r traciwr ar eich sgrin 'Trosolwg o'r hawliad' yn dangos eich bod ar Gam 5: Cau'r broses. Bydd y sgrin 'Trosolwg o'r hawliad' yn egluro'r hyn sydd angen i chi ei wneud ar bob cam.

Yn yr adran hon, mae'r canllaw yn esbonio sut y gallai eich hawliad orffen (hynny yw, 'cau') a beth sy'n digwydd nesaf. Mae'r pwyntiau sy'n cael eu hadolygu yn cynnwys:

- hawliad wedi'i gau
- taliad
- mynd i'r llys
- beth sy'n digwydd os na allwch ddefnyddio'r porth neu os oes gennych anghenion hygyrchedd

6.6.1 Hawliad wedi cau

Mae hawliad wedi'i gau ar y porth a bydd i'w weld ar y traciwr fel 'Hawliad wedi'i gau' os:

- rydych chi a'r parti arall wedi dod i gytundeb ar setlo'r holl golledion gwahanol
- mae wedi cael ei wrthod gan y digolledwr ac rydych yn derbyn hwn fel un terfynol

Gall hawliad ddangos fel un sydd wedi cau yn ystod achos llys. Fodd bynnag, gall hefyd fod yn gymwys fel 'Hawliad ar stop' (**Gweler Adran 6.6.1.1**).

6.6.1.1 Hawliadau ar stop

Os ydych wedi dewis 'Mynd i'r llys' ar gyfer anghydfod atebolrwydd neu ofyn i'r llys brisio'ch hawliad, bydd yr hawliad yn dangos ar y traciwr fel 'Cais wedi'i gau', ond bydd nodyn yn dweud ei fod yn dal yn y broses llys. Yn yr achos hwn, mae'r hawliad 'ar stop'. Mae hyn yn golygu na fydd yn symud ymhellach ar y porth tra bydd achosion llys yn digwydd. Fodd bynnag, gellir ailagor eich hawliad ar y porth pan fydd y llys wedi dod i ben â'r materion y gofynnwyd iddynt benderfynu arnynt.

Os byddwch yn llwyddiannus yn eich achos llys, yna byddwch yn gallu cofnodi dyfarniad y llys ar atebolrwydd canrannol yn y porth neu uwchlwytho gorchymyn llys.

Gall gorchmynion llys gymryd amser i'w prosesu, felly efallai na fyddant ar gael ar unwaith. Dylech gadw nodyn gofalus o benderfyniad y llys fel y gallwch fynd yn ôl i'r porth, uwchlwytho manylion y canlyniad a symud ymlaen at y cam nesaf.

6.6.1.2 Ceisio cyngor

Mae gwahanol ffynonellau cyngor y gallech eu defnyddio. Er enghraifft, eich yswiriwr neu'ch cynghorydd cyfreithiol eich hun, er efallai y bydd angen i chi dalu am wasanaethau cynghorydd cyfreithiol.

6.6.2 Taliad

Rhaid i'r digolledwr dalu unrhyw swm a gynigir i chi o fewn 10 diwrnod busnes o'r dyddiad y derbyniwyd y cynnig ar y porth. Gallech fod mewn anghydfod parhaus ynghylch ffioedd, ond rhaid talu'r prif swm o fewn 10 diwrnod.

Lle mae angen amser ar y digolledwr i gael tystysgrif Uned Adfer Iawndal (CRU) wedi'i diweddarau (**gweler 6.5.2.2**), rhaid gwneud eu taliad o fewn 30 diwrnod busnes.

Ar ôl i chi dderbyn cynnig, bydd y digolledwr yn cysylltu â chi i drefnu taliad. Bydd hyn yn cael ei wneud y tu allan i'r porth.

6.6.2.1 Pan na all hawliad fynd yn ei flaen ar y porth mwyach

Mae yna amryw o resymau pam na fydd eich hawliad yn gallu parhau ar y porth, megis pan nad yw'r Protocol Cyn Gweithredu yn berthnasol i'ch hawliad mwyach. Mae hyn yn digwydd:

- os byddwch chi neu'r digolledwr yn dweud bod yr hawliad wedi'i ailbrisio a bod yr hawliad cyffredinol yn fwy na £10,000 a/neu bod yr hawliad am iawndal oherwydd anaf yn fwy na £5,000
- os byddwch chi neu'r diffynnydd yn dod yn barti gwarchodedig. Mae parti gwarchodedig yn un a ddiffinir gan y **Protocol Cyn Gweithredu** (gweler 4.3(g)) fel "parti, neu barti arfaethedig, sydd heb allu i gynnal achos"
- os yw'r digolledwr yn eich hysbysu bod yr hawliad yn anaddas ar gyfer y protocol hwn oherwydd bod materion ffeithiol neu gyfraith cymhleth
- os yw'r digolledwr yn gwneud honiad o dwyll neu anonestrwydd sylfaenol yn eich erbyn mewn perthynas â'ch hawliad
- os yw'r digolledwr yn anghytuno neu'n parhau i ddadlau bod y ddamwain wedi achosi unrhyw anaf i chi ar ôl datgelu adroddiad meddygol

- os bydd y llys yn gwneud gorchymyn mewn achos bod yn rhaid i'r hawliad adael y porth a chael ei ychwanegu ato/ei gynnwys yn yr achosion hynny
- os nad yw'r naill barti na'r llall yn gallu darparu cyfeiriad i'r diffynnydd wrth baratoi'r ffurflen llys (h.y. os mai'r MIB neu ei asiantau yw'r digolledwr, neu os yw'r yswiriwr wedi nodi mai Yswiriwr RTA yw ei statws).

Os yw'r digolledwr yn cynghori na ddylai'r hawliad fynd ymlaen ar y porth mwyach, rhaid iddynt hefyd roi rheswm i chi. Efallai y byddwch wedyn yn dymuno ceisio cyngor.

Er y bydd yr hawliad wedyn yn gadael y porth, cofiwch y byddwch chi'n dal i allu lawrlwytho'r holl ohebiaeth a dogfennau ynglŷn â'ch hawliad. Bydd hyn yn eich helpu pan fyddwch yn ceisio cyngor.

Os yw eich hawliad am anaf yn werth mwy na £5,000 neu os yw'ch hawliad (gan gynnwys anaf ac iawndal protocol arall (**gweler 1.1**)) yn werth mwy na £10,000 yna nid y porth hwn yw'r lle cywir i ddechrau eich hawliad a dylech geisio gyngor (bydd eich cynghorydd yn egluro'r sefyllfa ar gostau i chi (**gweler 1.2.3.1**)).

Cofiwch: os yw NVC yn cael ei gynnwys ar y cam hwn, gallai hynny olygu bod eich cyfanswm ffigur yn dod i fwy na £10,000 ac efallai y byddwch yn gallu cael cyngor cyfreithiol (**gweler 1.2.3.1**). Fodd bynnag, gallwch barhau i ddefnyddio'r porth cyn belled â bod yr anaf a'r iawndal protocol o fewn y terfynau a osodwyd uchod (**gweler 1.1.1**).

6.6.3 Mynd i'r llys

Mae mynd i'r llys yn gallu bod yn broses sy'n achosi straen ac yn cymryd llawer o amser. Nod y porth yw helpu osgoi neu leihau'r angen i fynd i'r llys. Fodd bynnag, os ydych wedi ceisio setlo'ch hawliad drwy'r porth, ond yn dal yn anfodlon, gallwch ofyn i'r llys benderfynu ar eich hawliad.

Mae'r porth yn cefnogi rhai elfennau o'r broses 'Mynd i'r llys' (er enghraifft paratoi pecyn y llys). Mae prosesau llys eraill yn eistedd y tu allan i'r porth, er fel y crybwyllwyd uchod, os bydd y llys yn penderfynu o'ch plaid, gellir ailagor eich hawliad ar y porth.

6.6.3.1 Mynd i'r llys – cyfnod cyfyngu

Os gwnaethoch ddechrau eich hawliad yn y porth ond na allwch ei gwblhau o fewn y cyfnod cyfyngu o 3 blynedd (o ddyddiad y ddamwain), bydd angen i chi ddechrau hawliad llys cyn cyrraedd y terfyn amser hwnnw. Mae hyn yn gofyn ichi lenwi ffurflen llys. Bydd y porth yn eich tywys drwy'r broses hon.

6.6.3.2 Mynd i'r llys – costau cerbydau nad ydynt yn brotocol

Os na allwch gytuno ar setliad a'ch bod am fynd i'r llys, bydd angen i chi gynnwys unrhyw gostau cerbydau heb eu setlo nad ydynt yn gysylltiedig â phrotocol (NVC) o fewn eich hawliad (**Gweler Adran 5.2.4**). Bydd y porth yn gofyn sawl cwestiwn a fydd yn eich helpu i wirio bod costau cerbydau nad ydynt yn gysylltiedig â phrotocol wedi'u cynnwys.

Bydd angen i chi:

- ychwanegu'r holl wybodaeth am y costau cerbydau nad ydynt yn brotocol
- uwchlwytho unrhyw dystiolaeth ategol
- cwblhau'r ddogfen hawlio costau cerbydau nad ydynt yn brotocol
- llofnodi Datganiad Gwirionedd a'i uwchlwytho i'r porth

Os ydych yn ychwanegu costau cerbydau nad ydynt yn brotocol i'ch hawliad ac mae'n cymryd gwerth eich hawliad dros derfynau gwerth y porth, dylech ofyn am gyngor ar wahân.

Mae'n bosibl pan fyddwch yn cysylltu â chynrychiolydd ynghylch costau cerbydau nad ydynt yn gysylltiedig â phrotocol, a'ch bod yn eu hysbysu eich bod ar fin dechrau hawliad llys, efallai y byddant yn cynnig cynrychiolaeth i chi yn y llys. Os dewiswch dderbyn hyn, bydd angen i chi lawrlwytho'r holl ddogfennau perthnasol o'r porth a'u rhoi i'r cynrychiolydd.

Os ydych chi'n dewis mynd i'r llys heb gynrychiolaeth, bydd dal angen i chi gwblhau ffurflen llys a phecyn llys – gallwch ddefnyddio'r porth i'ch helpu (gweler uchod).

6.6.3.3 Mynd i'r llys – ffurflen llys

Paratoi rhestr eich pecyn llys

Rhaid i chi anfon y rhestr pecynnau llys at y digolledwr yn gyntaf (oni bai eich bod yn dechrau achos llys oherwydd y dyddiad cyfyngiad 3 blynedd), gan y bydd angen iddynt gadarnhau eu bod yn cytuno ar y cynnwys. Bydd y porth yn eich arwain trwy ba ddogfennau y mae angen eu cynnwys yn y rhestr. Ar ôl i chi dderbyn ateb y digolledwr, bydd y porth yn gofyn cyfres o gwestiynau i chi. Bydd eich atebion yn cael eu defnyddio i lenwi gweddill ffurflen y llys.

Bydd y rhestr pecyn llys y cytunwyd arnynt yn nodi'r holl ddogfennau y mae angen i chi eu hargraffu i greu'r pecyn llys. Rhaid anfon hwn i'r llys gyda ffurflen y llys (gweler isod).

Cwblhau'r cyfeiriad

Dyma'r opsiynau ar ôl cwblhau'r cyfeiriad:

- os nad ydych chi neu'r digolledwr wedi ychwanegu cyfeiriad y diffynnydd, bydd y ffurflen llys yn dangos y digolledwr fel y diffynnydd
- os yw'r digolledwr wedi cyfarwyddo cyfreithiwr i gynrychioli'r diffynnydd, bydd manylion y cynrychiolydd yn dangos fel y cyfeiriad ar gyfer gohebu
- Os mai'r MIB (neu ei asiantau) yw'r digolledwr, neu os yw'r yswiriwr wedi nodi mai Yswiriwr RTA yw ei statws, bydd yr MIB neu'r yswiriwr yn cael ei ychwanegu fel yr 2il ddiffynnydd a'r gyrrwr fydd y diffynnydd cyntaf. Yn yr achosion hyn lle nad ydych chi na'r digolledwr yn gallu darparu cyfeiriad y diffynnydd cyntaf wrth baratoi'r ffurflen llys, bydd yr hawliad yn gadael y porth ar yr adeg hon. Dylech ofyn am gyngor cyfreithiol ynglŷn â sut i fynd ymlaen.

Hawliadau blaenorol

Ar y porth, gofynnir i chi a ydych wedi dechrau hawliad am y ddamwain hon o'r blaen.

- os nad ydych eisoes wedi dechrau hawliad, rydych yn ateb 'Na'
- os nad dyma'r tro cyntaf i chi ddechrau hawliad llys am y ddamwain hon, rydych chi'n ateb 'Ydw' (er enghraifft fe wnaethoch chi gychwyn achos oherwydd bod atebolrwydd wedi'i wrthod, neu fe wnaethoch chi gychwyn achos er mwyn cael taliad interim)

Os mai ydw oedd eich ateb, yna gofynnir i chi roi rhif yr hawliad a ddyrannwyd i chi gan y llys pan ddechreuoch chi'r hawliad yn wreiddiol neu pan aethoch â'r hawliad i'r llys am y tro cyntaf. Bydd hwn i'w weld ar eich hysbysiad cyhoeddi neu unrhyw orchymyn llys blaenorol.

Mae'r broses hon yn caniatáu ichi ddechrau hawliad a'i barhau ar wahanol adegau. Er enghraifft, efallai eich bod wedi dechrau hawliad am atebolrwydd yn y gorffennol, sydd wedi ei benderfynu gan y llys, a nawr rydych chi am fynd i'r llys i benderfynu gwerth yr hawliad hwnnw.

Hawliadau cysylltiedig

Bydd y porth yn gofyn i chi a ydych yn ymwybodol o unrhyw hawliadau eraill sy'n gysylltiedig â'r un ddamwain. Gallai'r rhain fod yn hawliadau sy'n mynd rhagddynt o fewn y porth yr ydych wedi cael gwybod amdanynt, hawliadau sy'n mynd rhagddynt y tu allan i'r porth neu hawliadau lle mae achos eisoes wedi'i ddechrau. Os ydych yn ymwybodol o unrhyw hawliadau, dylech roi unrhyw fanylion sydd gennych (er enghraifft rhif hawliad llys, dyddiad penderfyniad y llys, enwau'r hawliwr a'r diffynnydd).

Paratoi eich ffurflen llys

Cyn i chi ddechrau hawliad llys, rhaid i chi baratoi ffurflen llys. Mae angen anfon hon i'r llys ynghyd â'ch pecyn llys. Bydd y porth yn eich tywys drwy baratoi'r ffurflen llys.


Bydd llawer o'r ffurflen wedi cael ei rhag-lenwii yn seiliedig ar y wybodaeth sydd gan y porth ar eich hawliad. Efallai y bydd angen i'r porth ofyn cwestiynau ychwanegol i chi fel y gellir cwblhau'r ffurflen llys yn llawn, ac yna byddwch yn gallu ei lawrlwytho o'r porth pan fyddwch yn barod.

Dechrau eich hawliad

Rhaid dechrau pob hawliad yng Nghanolfan Hawliadau Arian Llys y Sir yn Northampton. I ddechrau eich hawliad rhaid argraffu'r holl ddogfennau perthnasol (gweler isod) a'u hanfon ynghyd â'r ffi i Northampton. Gofynnir i chi ym mha lys yr hoffech i unrhyw wrandawriad gael ei gynnal.

I gael hyd i lys, dilynwch y camau isod:

1. Ewch i <https://www.gov.uk/find-court-tribunal>
2. Cliciwch ar **dechrau nawr** fel y dangosir yn y sgrin hon



3. Cliciwch ar 'lleoli'r llys sirol agosaf ar gyfer gwrandawriad' a chliciwch parhau

The screenshot shows the GOV.UK 'Court and tribunal finder' page. The URL in the browser is <https://courtribunalfinder.service.gov.uk/search/spoe?aoi=Money+claims>. The page has a black header with the GOV.UK logo and the title 'Court and tribunal finder'. Below the header, there is a message: 'This is a new service - [your feedback](#) will help us to improve it.' with a 'Cymraeg' link. A breadcrumb trail reads 'Home > Find the right court or tribunal'. The main heading is 'About your money claim'. There are three radio button options: 'about to start a new claim', 'already have a claim', and 'locate nearest county court for hearing'. The third option is selected and highlighted with an orange border. A green 'Continue' button is at the bottom.

4. Nodwch eich cod post.

Yna byddwch yn cael manylion y llys sirol perthnasol agosaf. Sicrhewch eich bod yn dewis **llys sirol** o'r rhestr.

The screenshot shows the next step in the GOV.UK 'Court and tribunal finder' process. The URL is <https://courtribunalfinder.service.gov.uk/search/postcode?aoi=Money+claims&spoe=nearest>. The header is the same. The breadcrumb trail is 'Home > Find a court or tribunal > About your issue > Additional info'. The main heading is 'Enter postcode'. Below it, the text says 'Enter your postcode.' followed by a text input field with an orange border. A green 'Continue' button is at the bottom.

Lle mae anghydfod ynghylch atebolrwydd

Lle mae anghydfod ynghylch atebolrwydd, mae rheolau llys yn gofyn am wrandawriad llafar (hynny yw, yn bersonol). Mewn hawliadau eraill (er enghraifft pan fyddwch yn gwneud cais am orchymyn i dalu swm y cytunwyd arno), mae'r llys yn debygol o ymdrin â'r mater heb wrandawriad. Mewn rhai achosion, bydd y rheolau'n caniatáu i'r llys benderfynu a ddylai fod penderfyniad (penderfyniad wedi'i wneud) gyda gwrandawriad neu heb wrandawriad. Os yw hyn yn berthnasol i'ch hawliad, gofynnir i chi nodi eich dewis.

Lle mae angen i dystion fyod yn bresennol

Fel arfer, byddwch eisoes wedi rhoi manylion dystion i'r digolledwr, ynghyd â manylion am yr hyn y bydd y tyst yn ei ddweud.

Pan fydd angen i dystion fynychu gwrandawriad llys, bydd y porth yn eich annog i restru'r dystion yr ydych am fod yn bresennol i roi tystiolaeth:

Mae'r broses fel a ganlyn:

- rhaid i chi restru eich hun bob amser
- bydd yr holl dystion yr ydych wedi eu nodi yn cael eu restru ar y sgrin, gan eich galluogi i ddewis y rhai yr ydych am roi tystiolaeth mewn gwrandawriad
- byddwch yn gallu ychwanegu manylion unrhyw dystion eraill nad ydych wedi eu restru o'r blaen, ond byddwch angen caniatâd y llys i'r dystion hynny fynychu'r gwrandawriad. Bydd y llys yn delio â hynny ar y cam cyfarwyddiadau (gweler isod)

Cadarnhau tystiolaeth

Ym mhecyn y llys, rhaid i chi gynnwys yr holl dystiolaeth yr ydych yn dymuno dibynnu arni sydd eisoes wedi'i ddangos i'r digolledwr. Gofynnir i chi gadarnhau a oes unrhyw dystiolaeth bellach yr hoffech ddibynnu arni nad yw wedi'i chynnwys yn eich pecyn llys, gan nad ydych eto wedi ei dangos i'r digolledwr.

Gallai hyn fod yn:

- dogfennau yr ydych am ddibynnu arnynt
- unrhyw dystion

Rhaid i chi restru ar y ffurflen llys unrhyw dystiolaeth nad yw eisoes ym mhecyn y llys a chadarnhau y byddwch yn ei hatodi i ffurflen y llys.

Rhaid i chi hefyd egluro pam nad yw'r dystiolaeth wedi'i darparu eisoes a nodi crynodeb o beth yw'r dystiolaeth.

Os na allwch atodi'r dystiolaeth i'r ffurflen llys, rhaid i chi egluro pam.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hystyried gan y llys pan fydd yn rhoi cyfarwyddiadau (gweler isod). Bydd y llys yn cadarnhau a fydd yn caniatáu i chi ddibynnu ar unrhyw dystiolaeth ychwanegol nad yw wedi'i chynnwys ym mhecyn y llys.

Cyfarwyddiadau

Pan fydd y llys yn derbyn y ffurflen llys a'r pecyn llys, bydd eich hawliad yn cael ei ystyried a, lle bo'n briodol, bydd y llys yn rhoi cyfarwyddiadau.

Mae cyfarwyddiadau'n nodi sut yr ymdrinnir â'r hawliad a'r camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd. Fel arfer bydd y llys yn rhoi cyfarwyddiadau safonol. Mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad B o'r **Cyfeiriad Ymarfer** i Ran 27 o'r Rheolau Gweithdrefn Sifil.

Cwblhau ffurflen

Ar ôl llenwi'r ffurflen, rhaid i chi ei hargraffu a'i gwirio'n ofalus. Rhaid i chi hefyd arwyddo'r Datganiad Gwirionedd yn cadarnhau bod y wybodaeth yn gywir. Yna, dylech goladu:

- ffurflen y llys
- rhestr o ddogfennau i'r llys
- y pecyn llys printiedig
- unrhyw dystiolaeth ychwanegol yr ydych yn gofyn i'r llys am ganiatâd i ddibynnu arni

Mae hwn yn cael ei anfon at:

Civil National Business Centre,
St Katherine's House, Northampton NN1 2LH

DX: 702885 Northampton 7

Rhaid i chi dalu unrhyw ffi llys perthnasol (gweler www.gov.uk/get-help-with-court-fees)

6.6.3.4 Ffioedd llys

Bydd angen i chi dalu ffioedd llys pan fyddwch yn dechrau achos llys, (er y gallech gael eich eithrio neu eich eithrio yn rhannol). Bydd angen i chi naill ai dalu ffi cyhoeddi ar sail gwerth neu ffi ymgeisio, yn dibynnu ar eich rheswm dros fynd i'r llys. Os oes angen i chi fynd i'r llys fwy nag unwaith efallai y bydd ffi ychwanegol i'w thalu os yw gwerth eich hawliad wedi newid dros amser. Mae'n bosib y bydd ffi gwrandawriad i'w dalu hefyd. Bydd angen i chi ysgrifennu'r ffi ar ffurflen y llys ar ôl i chi ei hargraffu ac anfon y taliad i'r llys gyda'r dogfennau perthnasol. Os yw'ch hawliad yn llwyddiannus, bydd y diffynnydd fel arfer yn cael gorchymyn i dalu'r ffi llys i chi.

6.6.3.5 Help gyda ffioedd

Efallai y gallwch gael arian oddi ar ffioedd y llys os nad oes gennych lawer o gynilion, os o gwbl, os ydych ar fudd-daliadau penodol neu os oes gennych incwm isel. Trwy ddilyn y ddolen ar y sgrin, byddwch yn gallu llenwi ffurflen gais ar-lein a fydd yn cadarnhau a ydych yn gymwys i dalu ffi gostyngol neu ddim ffi o gwbl.

Er mwyn cwblhau'r hawliad ar-lein, bydd angen manylion budd-daliadau perthnasol arnoch ac, os yw'n briodol, eich incwm. Mae canllaw cam wrth gam manwl ar wefan gov.uk ar www.gov.uk/government/publications/apply-for-help-with-court-and-tribunal-fees.

6.6.3.6 Prosesau llys nad ydynt yn cael eu cefnogi gan y broses borth:

Nid yw'r porth yn ymdrin â phroses y llys; yn syml mae'n rhoi rhywfaint o wybodaeth a'r ffurflenni sydd eu hangen i ddwyn achos llys. Cyfeiriwch at y **Protocol Cyn Gweithredu** a Chyfarwyddyd **Ymarfer y llys** am fwy o wybodaeth.

6.6.4 Beth sy'n digwydd os na allwch chi ddefnyddio'r

Bydd angen cymorth ychwanegol arnoch i ddefnyddio'r porth neu i wneud hawliad os:

- ydych yn siaradwr iaith dramor neu'n siaradwr Cymraeg
- nid yw'r broses ar-lein yn addas i chi (er enghraifft rydych yn anghyfforddus wrth lenwi ffurflen hawlio ar-lein neu os oes gennych anghenion hygyrchedd). Nodwch: mae'r porth wedi cydymffurfio â Safonau Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau

Os yw hyn yn wir, yna bydd angen i chi gysylltu â Chanolfan Cymorth y Porth (**mae'r manylion cyswllt yn adran 2**). Byddant yn rhoi gwybod i chi pa gamau sydd angen i chi eu cymryd – er enghraifft a allwch dderbyn ffurflen gais bapur neu a allwch gwblhau'r broses hawlio gyda chymorth asiant gofal cwsmer (hynny yw, dros y ffôn neu drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu sydd ar gael ar gyfer y 10 iaith uchaf yng Nghymru a Lloegr).

Atodiad

Detholiadau o Ganllawiau’r Coleg Barnwrol (17eg argraffiad) am brisio anafiadau nad ydynt yn atchwip

SYLWCH: OS YDYCH WEDI DIODDEF ANAF ATCHWIPIO AR ÔL 31 MAI 2021 BYDD EICH CAIS YN CAEL EI BRISIO DRWY GYFEIRIO AT DARIFF AC NID YW’R DARN HWN YN CYNNWYS Y TARIFF.

Mân anafiadau, gan gynnwys briwiau, rhwygiadau a chrafiadau

Mân anafiadau yw anafiadau sy’n para am gyfnod byr, lle ceir adferiad llwyr o fewn tri mis, ac na chyfeirir atynt fel arall mewn penodau eraill. Gall achosion lle mae poen sylweddol neu anafiadau lluosog, er eu bod yn gwella’n llwyr o fewn tri mis, fod y tu allan i’r bennod hon. Yn yr un modd, mae’n bosibl y bydd yn briodol cynnwys yn y bennod hon achosion sy’n ymwneud, er enghraifft â phryder teithio (sy’n gysylltiedig â man anafiadau corfforol) neu fân greithiau lle mae’r symptomau’n para am fwy na thri mis. Bydd y dyfarniadau o fewn pob braced yn dibynnu ar ddifrifoldeb a hyd y symptomau. Bydd i ba raddau y mae lefel y symptomau yn aros yn gymharol gyson hefyd yn ffactor perthnasol. Ni fydd hawliadau sy’n ymwneud â sioc neu bryder teithio yn absenoldeb anaf corfforol neu seiciatrig yn denu dyfarniad iawndal.

Lle mae gwellhad llwyr o fewn tri mis	£1,680 i £2,990
Lle mae gwellhad llwyr o fewn 28 diwrnod	£840 i £1,680
Lle mae gwellhad llwyr o fewn saith niwrnod	Ychydig gannoedd o bunnoedd i £840

Asennau/brest

Anafiadau i’r asennau a’r frest

Torri asennau neu anafiadau i feinwe meddal yn achosi poen difrifol ac anabledd dros gyfnod o wythnosau yn unig	Hyd at £4,820
---	---------------

Anafiadau i’r ysgyfaint

Anafiadau yn arwain at ysgyfaint wedi datchwyddo o ba rai y gwneir adferiad llwyr ac heb gymhlethdod	£2,680 i £6,500
Gwaethygu bronchitis dros dro neu broblemau eraill sy’n datrys o fewn ychydig fisoedd	£2,680 i £6,500

Wyneb/boch/gên/trwyn

Anafiadau i’r llygaid

Mân anafiadau – O fewn y braced hwn mae achosion o fân anafiadau, megis cael eich taro yn y llygad, dod i gysylltiad â mygdarth gan gynnwys mwg, neu eich tasgu gan hylifau, gan achosi poen cychwynnol a rhywfaint o ymyrraeth dros dro â golwg	£4,820 i £10,660
Anafiadau llygad dros dro – Yn yr achosion hyn bydd y person a anafwyd wedi gwella’n llwyr o fewn ychydig wythnosau	£2,690 i £4,820

Anafiadau i’r glust / nam ar y clyw

Ychydig o golled clyw a achosir gan sŵn heb gloch fach neu ychydig o gloch fach heb golli clyw a achosir gan sŵn	Hyd at £8,560
--	---------------

Wyneb/boch/gên/trwyn

Anafiadau i'r trwyn

Toriadau trwyn neu'r strwythur trwynol – toriad wedi'i ddadleoli lle mae adferiad llwyr ond dim ond ar ôl llawdriniaeth	£4,820 i £6,230
Toriadau trwyn neu'r neu strwythur trwynol – toriad wedi'i ddadleoli lle nad oes angen mwy na thrin	£3,080 i £3,850
Toriadau trwyn neu'r strwythur trwynol – toriad syml heb ei dadleoli gydag adferiad llwyr	£2,080 i £3,080

Anafiadau i asgwrn y foch

Toriad syml i asgwrn y foch y mae angen rhywfaint o lawdriniaeth ail-luniol ar ei gyfer ond y ceir adferiad llwyr ohono heb unrhyw effeithiau neu ond ychydig iawn o effeithiau cosmetig	£5,310 i £7,880
Toriad syml i asgwrn y foch nad yw'n galw am lawdriniaeth a lle ceir adferiad llwyr	£2,830 i £3,650

Braich/arddwrn/llaw/bys(edd)

Anafiadau i'r benelin – cymedrol i fach:

Maent yn cynnwys toriadau syml, syndrom penelin tenis, a rhwygiadau; h.y. yr anafiadau hynny nad ydynt yn achosi unrhyw niwed parhaol ac nad ydynt yn arwain at unrhyw amhariad parhaol ar swyddogaeth

Anafiadau gyda'r mwyafrif o'r symptomau yn datrys o fewn 18 i 24 mis ond gyda symptomau lefel niwsans yn parhau ar ôl hynny	Tua £7,930
Anafiadau sy'n datrys yn llwyr ar ôl tua blwyddyn	Tua £4,310
Anafiadau gydag adferiad llwyr o fewn 18 i 24 mis	Hyd at £6,100

Anafiadau i'r arddwrn

Toriadau mân iawn o esgyrn sydd heb eu dadleoli neu wedi dadleoli ond ychydig ac anafiadau i'r meinweoedd meddal sy'n golygu bod angen defnyddio plastr neu rwymyn am ychydig wythnosau ac adferiad llwyr neu adferiad i bob pwrpas o fewn tua 12 mis	£4,310 i £5,790
---	-----------------

Braich/arddwrn/llaw/bys(edd)

Anafiadau i law neu fys

Colli ffalang terfynol bys y fodrwy neu'r bysedd canol	£4,820 i £9,610
Colli rhan o'r bys bach – mae hyn yn briodol lle mae'r blaen sy'n weddill yn sensitif	£4,820 i £7,150
Dadleoli difrifol neu Anaf Meinwe Meddal i'r bawd – Bydd anafiadau fel y rhain yn golygu colli peth mân swyddogaeth parhaol	£7,740 – £9,490
Mân anafiadau i law, bys a bawd – Bydd hyn yn cynnwys toriadau sydd fel arfer wedi gwella mewn chwe mis. Hefyd anafiadau megis creithiau, tynerwch, ac adwaith i'r oerfel lle mae adferiad llwyr	Hyd at £5,800

Coes/pen-glin/ffêr/troed/bys troed

Anafiadau i goes -Toriadau Syml i'r Crimog neu'r Ffibwla neu Anafiadau i'r Meinwe Meddal

Lle digwyddodd toriad syml o'r crimog neu ffibwla gydag adferiad llwyr. Bydd lefel y dyfarniad yn cael ei ddylanwadu gan yr amser a dreulir mewn plastr a hyd y cyfnod adfer	£8,640 – £11,050
Amrywiaeth eang o anafiadau meinwe meddal, rhwygiadau, briwiau, neu gleisiau, pob un ohonynt wedi gwella'n llwyr neu bron felly ac unrhyw anabledd gweddilliol yn gosmetig neu o natur dibwys.	Llai na £2,990 pan fydd wedi datrys yn llwyr o fewn ychydig fisoedd

Anafiadau i'r ben-glin

Cyfnodau byrrach o gyflymu neu waethygu, a hefyd anafiadau rhwygiadau, troi neu gleisio. Lle mae poen parhau neu anghysur, neu boen achlysurol, bydd y dyfarniad tuag at ben uchaf y braced. Mae cyflymiad cyflwr sydd eisoes yn bodoli am gyfnod o ddwy i dair blynedd gan achosi poen cyson yn debygol o gyfiawnhau dyfarniad o tua £9,930. Lle mae adferiad wedi'i gwblhau neu bron wedi'i gwblhau mae'r dyfarniad yn annhebygol o fod yn fwy na £7,370, oni bai bod y ddau ben-glin yn gysylltiedig. Bydd anafiadau cymedrol sy'n datrys o fewn cyfnod byr yn denu dyfarniadau is. Bydd anaf o fath straen meinwe meddal nad yw'n effeithio'n sylweddol ar weithgareddau dyddiol ac sy'n datrys yn raddol o fewn chwe i saith mis yn debygol o ddenu dyfarniad o tua £2,750	Hyd at £16,770
---	----------------

Coes/pen-glin/ffêr/troed/bys troed

Anafiadau i ffêr, troed a bys troed

Y toriadau llai difrifol, mân neu heb ddadleoli, ysigiadau ac anafiadau i'r gewynnau. Pennir lefel y dyfarniad o fewn y braced gan p'un ai bod adferiad llwyr wedi digwydd, ac os nad yw'r adferiad yn gyflawn, a oes unrhyw duedd i'r ffêr ildio, ac a oes creithio, poen neu anghysur, colli symudiad, neu'r posibilrwydd o osteoarthritis hirdymor. Lle ceir adferiad llwyr heb unrhyw symptomau cyfredol neu greithio, mae'n annhebyg y bydd y dyfarniad yw uwch na £9,390. Lle ceir adferiad llwyr o fewn blwyddyn, mae'r dyfarniad yn annhebyg o fod yn uwch na £6,710. Mae mân anafiadau sy'n datrys o fewn cyfnod byr yn denu dyfarniadau is.

Hyd at £16,770

Toriadau metatarsol syml, rhwygo gewynnau, clwyfau twll a'u tebyg. Lle mae symptomau yn parhau, megis cloffni parhaol, poen neu wynegon, byddai dyfarniadau rhwng £8,560 a £16,770 yn briodol. Byddai anafiadau syml i droed, megis toriadau, rhwygiadau, cleisio ac ati, sy'n arwain at adferiad llwyr neu bron yn llwyr yn cyfiawnhau dyfarniadau o £8,560 neu lai. Mae mân anafiadau sy'n datrys o fewn cyfnod byr yn denu dyfarniadau is. Mae dyfarniadau ar gyfer anafiadau mân i droed sy'n datrys o fewn ychydig fisoedd, gydag effaith fach ar ddull o fyw neu weithgareddau o ddydd i ddydd, yn annhebyg o fod yn uwch na £2,990

Hyd at £16,770

Coes/pen-glin/ffêr/troed/bys troed

Mân anafiadau i fys troed – Mae'r anafiadau hyn yn cynnwys toriadau cymharol syml neu rwygiadau neu waethygu cyflwr dirywiol sy'n bodoli eisoes neu anafiadau rhwygiad i un neu fwy o fysedd y droed. Mae achosion sy'n ymwneud â mân anafiadau estynedig a/neu'r angen am lawdriniaeth sy'n arwain at anesmwythder estynedig a chreithio parhaol yn debygol o gyfiawnhau dyfarniadau tua phen uchaf y braced hwn. Dim ond £6,820 neu lai fyddai'n cael ei ddyfarnu ar gyfer toriadau syml neu anafiadau gwasgu/neu anafiadau meinwe meddal i un neu fwy o fysedd y droed gyda datrysiaid llwyr neu bron yn llwyr. Bydd anafiadau mân sy'n datrys o fewn cyfnod byr yn denu dyfarniadau is.

Hyd at £11,720

Creithio

Creithio wyneb llai arwyddocaol – Yn yr achosion hyn gall fod ond un graith, neu, er bod yna nifer o greithiau bach iawn, yr effaith gyffredinol yw i andwyo ond nid i effeithio’n sylweddol ar yr olwg ac nid yw’r adwaith yn ddim mwy nag adwaith person ifanc sydd fel arfer yn sensitif. Mae achosion sy’n ymwneud ag un graith sengl (nid gorbigmentaidd neu keloid) y gellir eu cuddio neu eu cuddliwio ac nad ydynt yn cynrychioli unrhyw nam cosmetig yn debygol o ddenu dyfarniad ar ben isaf y braced.	£4,820 i £16,770
Mân greithio wyneb – Yn yr achosion hyn mae’r effaith yn fach yn unig	£2,080 i £4,310

Niwed i ddannedd

Colli neu niwed difrifol i nifer o ddannedd blaen	£10,660 i £13,930
Colli neu niwed difrifol i ddau ddant blaen. Bydd colli dau ddant blaen yn denu dyfarniad canolig i ben uchaf i braced hwn a niwed i ddau ddant blaen neu golli dau ddant llaeth yn denu dyfarniad at y pen isaf.	£5,310 i £9,310
Colli neu niwed difrifol i un dant blaen	£2,690 i £4,820
Colli neu niwed i dannedd cefn: fesul dant	£1,330 i £2,080

Pen a gwallt

Mân niwed i'r ymennydd neu'r pen – Yn yr achosion hyn bydd niwed i'r ymennydd, os o gwbl, wedi bod yn isafol. Effeithir ar lefel y dyfarniad gan yr ystyriaethau canlynol: (i) difrifoldeb yr anaf cychwynnol; (ii) y cyfnod a gymerir i wella o unrhyw symptomau; (iii) graddau'r symptomau parhaus; (iv) presenoldeb neu absenoldeb cur pen. Mae achosion sy'n cael eu datrys o fewn tua dwy i dair blynedd yn debygol o ddod o fewn ystod ganolig ac isaf y braced. Bydd gwaelod y braced yn adlewyrchu adferiad llwyr o fewn ychydig wythnosau.	£2,690 i £15,580
Llai o niwed difrifol i wallt o ganlyniad i natur donnog parhaus diffygiol, arlliwio, neu debyg, lle mae'r effeithiau'n dermatitis, ecsema, neu gosi neu 'losgi' croen y pen yn arwain at wallt sych, brau, sy'n torri a/ neu'n disgyn allan, yn arwain at bryder, iselder, embaras a cholli hyder, ac yn ffrwyno bywyd cymdeithasol. Hefyd, mewn achosion lle mae gwallt wedi ei dynnu allan gan adael mannau moel. Bydd lefel y dyfarniad yn dibynnu ar faint o amser a gymerir cyn i'r gwallt ailgyfnewid. Bydd y braced hwn yn cynnwys achosion o alopesia a achosir gan straen sy'n achosi rhywfaint o golli gwallt lle gwneir adferiad llwyr o fewn dwy flynedd.	£4,820 i £8,960

Seicolegol a seiciatrig

Niwed seiciatrig cymedrol – Er y gall fod y math o broblemau fu'n gysylltiedig â ffactorau (i) i (iv) uchod1 bydd gwelliant amlwg wedi bod yn ôl treial a bydd y prognosis yn dda.	£7,150 i £23,270
Gall achosion o straen sy'n gysylltiedig â gwaith ddod o fewn y categori hwn os nad yw'r symptomau yn estynedig.	
Niwed seiciatrig llai difrifol – Bydd lefel y dyfarniad yn ystyried hyd y cyfnod anabledd ac i ba raddau yr effeithiwyd ar weithgareddau o ddydd i ddydd a chwsgr. Gellir dod o hyd i achosion sy'n brin o ffobia penodol neu ddryswch megis pryder teithio sy'n gysylltiedig â mân symptomau corfforol yn y bennod ar Fân Anafiadau	£1,880 i £7,150
PTSD, cymedrol – Yn yr achosion hyn bydd y person a anafwyd wedi adfer i raddau helaeth ac ni fydd unrhyw effeithiau'n analluogi'n ddifrifol	£9,980 i £28,250
PTSD, llai difrifol – Yn yr achosion hyn bydd adferiad bron yn llwyr wedi ei wneud o fewn un i ddwy flynedd a mân symptomau yn unig fydd yn parhau dros unrhyw gyfnod hirach	£4,820 i £9,980

Gwddf – anafiadau nad ydynt yn atchwipio yn unig (lle mae anaf atchwipio wedi digwydd bydd angen i chi ystyried y tariff i brisio eich hawliad)

Mae'r braced yn cynnwys mân anafiadau meinwe meddal. Tra bydd hyd cyfnod y symptomau yn bwysig bob amser, gall ffactorau fel y rhai a restrir isod gyfiawnhau dewis dyfarniad mewn naill ai braced uwch neu is

- difrifoldeb yr anaf i'r gwddf ;
- dwyster y boen a brofir a chysondeb y symptomau;
- i ba raddau y mae symptomau parhaus o fân natur yn unig;
- presenoldeb symptomau ychwanegol yn y cefn a/neu ysgwydd a/neu gwr pen a atgyfeiriwyd;
- effaith y symptomau ar allu'r person a anafwyd i weithredu mewn bywyd bob dydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol/adloniadol;
- effaith yr anafiadau ar allu'r person a anafwyd i weithio;
- graddau unrhyw driniaeth sydd ei hangen;
- yr angen i gymryd meddyginiaeth i reoli symptomau poen ac anesmwythder.

Gwddf – anafiadau nad ydynt yn atchwipio yn unig (lle mae anaf atchwipio wedi digwydd bydd angen i chi ystyried y tariff i brisio eich hawliad)

Lle ceir adferiad llwyr o fewn cyfnod o un i ddwy flynedd. Bydd y braced hwn hefyd yn berthnasol i gyflymiad tymor byr a/neu waethygiad anafiadau, fel arfer rhwng blwyddyn a dwy	£5,310 i £9,630
Lle ceir adferiad llwyr rhwng tri mis a blwyddyn. Bydd y braced hwn hefyd yn berthnasol i gyflymiad tymor byr a/neu waethygiad anafiadau, fel arfer llai na blwyddyn.	£2,990 i £5,310
Lle gwneir adferiad llwyr o fewn tri mis	Hyd at £2,990

Ysgwydd – anafiadau nad ydynt yn atchwipio yn unig (lle mae anaf atchwipio wedi digwydd bydd angen i chi ystyried y tariff i brisio eich hawliad)

Man cychwyn yr asesiad fydd hyd y symptomau ond gall difrifoldeb yr anaf gwreiddiol, graddau'r boen a brofwyd a'r graddau y mae'r symptomau parhaus o fân natur yn unig yn cyfiawnhau dyfarniad mewn braced uwch neu is.

Mewn llai na dwy flynedd	£5,310 i £9,630
O fewn blwyddyn	£2,990 i £5,310
O fewn tri mis	Hyd at £2,990

Cefn – anafiadau nad ydynt yn atchwipio yn unig (lle mae anaf atchwipio wedi digwydd bydd angen i chi ystyried y tariff i brisio eich hawliad)

Mae'r braced hwn yn cynnwys ysigiad llai difrifol, llithriadau disg, anafiadau meinwe meddal, neu anafiadau toriad sy'n adfer heb lawdriniaeth. Fel gyda mân anafiadau gwddf, tra bydd hyd cyfnod y symptomau yn bwysig bob amser, gall ffactorau fel y rhai a restrir isod gyfiawnhau dewis dyfarniad mewn naill ai braced uwch neu is

- difrifoldeb yr anaf gwreiddiol;
- graddau'r boen a brofir a chysondeb y symptomau;
- i ba raddau y mae symptomau parhaus o fân natur yn unig;
- presenoldeb unrhyw symptomau ychwanegol mewn rannau eraill o'r corff, yn enwedig y gwddf;
- effaith y symptomau ar allu'r person a anafwyd i weithredu mewn bywyd bob dydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol/adloniadol;
- effaith yr anafiadau ar allu'r person a anafwyd i weithio;
- graddau unrhyw driniaeth sydd ei hangen;
- yr angen i gymryd meddyginiaeth i reoli symptomau poen ac anesmwythder.

Cefn – anafiadau nad ydynt yn atchwipio yn unig (lle mae anaf atchwipio wedi digwydd bydd angen i chi ystyried y tariff i brisio eich hawliad)

Lle ceir adferiad llwyr heb lawdriniaeth o fewn cyfnod o un i ddwy flynedd. Bydd y braced hwn hefyd yn berthnasol i gyflymiad tymor byr a/neu waethygiad anafiadau, fel arfer rhwng blwyddyn a dwy	£5,310 – £9,630
Lle ceir adferiad llwyr rhwng tri mis a blwyddyn. Bydd y braced hwn hefyd yn berthnasol i gyflymiad tymor byr iawn a/neu waethygiad anafiadau, fel arfer llai na blwyddyn	£2,990 i £5,310
Lle gwneir adferiad llwyr o fewn tri mis	Hyd at £2,990

Tariff

Mae Rheoliad 2(1)(a) yn ymwneud â chwiplash yn unig ac mae 2(1)(b) yn ymwneud â chwiplash + anaf seicolegol bach. Mae’r tariff hwn yn berthnasol i ddamweiniau ar neu ar ôl 31 Mai 2021.

Hyd yr anaf Swm	Swm - Rheoliad 2(1)(a)	Swm - Rheoliad 2(1)(b)
Dim mwy na 3 mis	£240	£260
Mwy na 3 mis, ond dim mwy na 6 mis	£495	£520
Mwy na 6 mis, ond dim mwy na 9 mis	£840	£895
Mwy na 9 mis, ond dim mwy na 12 mis	£1,320	£1,390
Mwy na 12 mis, ond dim mwy na 15 mis	£2,040	£2,125
Mwy na 15 mis, ond dim mwy na 18 mis	£3,005	£3,100
Mwy na 18 mis, ond dim mwy na 24 mis	£4,215	£4,345

Tariff

Mae Rheoliad 2(1)(a) yn ymwneud â chwiplash yn unig ac mae 2(1)(b) yn ymwneud â chwiplash + anaf seicolegol bach. Mae’r tariff hwn yn berthnasol i ddamweiniau ar neu ar ôl 31 Mai 2025.

Hyd yr anaf Swm	Swm - Rheoliad 2(1)(a)	Swm - Rheoliad 2(1)(b)
Dim mwy na 3 mis	£275	£300
Mwy na 3 mis, ond dim mwy na 6 mis	£565	£595
Mwy na 6 mis, ond dim mwy na 9 mis	£965	£1,025
Mwy na 9 mis, ond dim mwy na 12 mis	£1,510	£1,595
Mwy na 12 mis, ond dim mwy na 15 mis	£2,335	£2,435
Mwy na 15 mis, ond dim mwy na 18 mis	£3,445	£3,550
Mwy na 18 mis, ond dim mwy na 24 mis	£4,830	£4,975

Am help a chefnogaeth, ffoniwch ni ar 0800 118 1631. Mae canolfan gefnogi'r porth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm.

Cyfeiriad:

Official Injury Claim Limited

Linford Wood House

6-12 Capital Drive

Linford Wood

Milton Keynes

MK14 6XT

OFFICIAL
INJURY
CLAIM